

Ein Bro Ysgol Bro Hyddgen

Newyddion

News



Hydref 2019 / Autumn 2019

2 Gair gan y Pennaeth / Letter from the

Annwyl Riant/Ofalwr

Yn dilyn blwyddyn lle mae'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd wedi bod ar stop, dwi'n falch o allu dweud fy mod wedi bod mewn cyfarfod i drafod ail ddechrau'r gwaith yn ddiweddar. Nid wyf yn siwr pryd bydd yr adeilad newydd yn agor ond mae pethau yn bositif iawn ar hyn o bryd.


Yn dilyn ymweliad craidd ym mis Tachwedd mae disgwyl i ni fod yn ysgol categori felyn sydd yn ein gosod yn 50% uchaf trwy Gymru. Fodd bynnag, mae ein ystadegau presenoldeb yn ein gosod yn y categori coch ac yn ein rhwystro rhag cyrraedd y categori gwyrdd 75% uchaf. Felly hoffwn ofyn i chi ystyried yn ofalus cyn mynd a'ch plant ar wyliau neu eu tynnu allan o'r ysgol yn ystod y tymor.

Rydym wedi dechrau system lle ydym yn gwobrwyo plant am bresenoldeb dros 98% lle byddant yn cael cyfle i ennill iPad. Byddwn hefyd yn gwobrwyo plant sy'n bresennol am 100% o'r amser.

Mae llawer o weithgareddau buddiol iawn wedi digwydd ar draws y ddau gampws fel y gwelwch yn y cylchgrawn hwn. Hoffwn ddiolch i bob aelod o staff am fod mor weithgar a chydwybodol wrth addysgu eich plant a sicrhau eu bod yn cael profiadau gwych.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd dda i bawb,

Yr eiddoch yn gywir



Dafydd M B Jones
Pennaeth
Ysgol Bro Hyddgen

Dear Parent / Carer

Following a year in which the construction of the new school has been halted, I am pleased to report that I have recently attended a meeting to discuss the resumption of the work. I'm not sure when the new building will open but things are very positive at the moment.


Following our Core Visit in November we are expected to be a yellow category school which places us in the top 50% throughout Wales. However, our attendance statistics place us in the red category and prevent us from reaching the top 75% green category. So I would ask you to consider carefully before taking your children on holiday or taking them out of school during term time.

We have started a system where we reward children for over 98% attendance where they have a chance to win an iPad. We will also reward children who attend for 100% of the time.

There have been many exciting activities taking place across both campuses as you will see in this magazine. I would like to thank all staff for being so active and conscientious in educating your children and ensuring that they have great experiences.

I would like to wish a Merry Christmas and a happy new year to all.

Yours faithfully



Dafydd M B Jones
Headteacher
Ysgol Bro Hyddgen




Dyddiadau Pwysig / Important Dates

3

20:12:19	Diwrnod ola'r tymor/Last day of term NADOLIG LLAWEN/MERRY CHRISTMAS
6:1:20	Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd/ HMS day
7:1:20	Ysgol i bawb / School for all
8:1:20	Arholiad TGAU Saesneg Llên – Pawb yn Bl 10 / English Lit GCSE Exam – All of Yr 10
10:1:20	Arholiad TGAU Cymraeg Llên – Bl 11 dosbarth LJE / GCSE Welsh Lit exam – LJE's Year 11 Class.
13:1:20	Noson Rieni Bl 11 ac 13 / Yr 11 and 13 Parents evening
15:1:20	Dyddiad Cau Ceisiadau UCAS Application Closing Date
27:1:20	Noson Agored y Chweched Dosbarth 6.00 – 8.00 / Sixth Form Open Evening 6.00 – 8.00
3:2:20	Wythnos Ffug Arholiadau'r 6ed dosbarth/ 6th Form Mock Exam Week
17:2:20 – 21:2:20	HANNER TYMOR / HALF TERM
23:3:20	Wythnos Ffug Arholiadau Bl 10 / Yr 10 Mock Exam Week
2:4:20	Arholiad Llafar TGAU Ffrangeg Bl 11/ Yr 11 GCSE French Oral Exam
4:4:20 – 19:4:20	GWYLIAU PASG / EASTER HOLIDAYS
20:4:20	Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd/ HMS day
21:4:20	Ysgol i bawb / School for all

Gwobrwyo Presenoldeb Da


Rydym yn anelu i gael presenoldeb uchel gan ein myfyrwyr. Ar ddiwedd bob hanner tymor byddwn yn cyflwyno tystysgrifau i bawb sydd â phresenoldeb o 98% neu fwy, a thystysgrif aur a gwobr fach i bawb sydd â phresenoldeb o 100%. Yna caiff yr holl fyfyrwyr sydd â 98% neu fwy eu cynnwys mewn raffl am gyfle i ennill 2 x ipad ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd.



attendance
MATTERS

A+

Rewarding Good Attendance



We aim to achieve high attendance from our students. At the end of each term we will present certificates to those students whose attendance is 98% or above, and a gold certificate and a small prize to anyone who has 100% attendance. All students that have 98% or over are then entered into a draw for a chance to win 2 x ipads at the end of the academic year



@brohyddgen



4 Presenoldeb / Attendance

Annwyl Riant / Ofalwr,

Rydym wedi penderfynu adrodd ar gyfradd presenoldeb eich plentyn bob tymor.

Rydym yn awyddus i weld pob plentyn yn yr ysgol yn llwyddo. Gan hynny mae'n bwysig bod rhieni'n gwneud eu gorau glas i helpu eu plant i ddod i'r ysgol am y 190 diwrnod llawn fel sy'n cael ei nodi yn y Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol – Diwygiad 2006).

O dan y Ddeddf Addysg (1996), cyfrifoldeb y riant neu'r gofalwr yw sicrhau bod plentyn yn mynychu'r ysgol. Mae presenoldeb rheolaidd yn hanfodol bwysig ac mae colli'r ysgol yn gallu cael effaith fawr ar gyflawniad dros flwyddyn fel mae'r grid isod yn ei ddangos:


Presenoldeb 95-100%	Cyfle gorau o lwyddo	Mae'ch plentyn yn manteisio'n llawn ar bob cyfle dysgu.
Presenoldeb 90-95%	Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf dwy wythnos o ddysgu	Bodddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny gyda gwaith.
Presenoldeb 85-90%	Mae'ch plentyn wedi colli o leiaf pedair wythnos o ddysgu	Gall eich plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac efallai y bydd rhaid i chi roi help i'ch plentyn i ddal i fyny gyda'u gwaith
Presenoldeb 80-85%	Mae'ch plentyn wedi colli pum wythnos a hanner o ddysgu	Mae presenoldeb gwael yn effeithio'n sylweddol ar ddysgu'ch plentyn.
Presenoldeb o dan 80%	Mae'ch plentyn wedi colli saith wythnos a hanner o ddysgu	Mae'ch plentyn yn colli allan ar addysg eang a chytbwys. Rydych chi mewn perygl o gael eich erlyn.

Prydlondeb

Noder hefyd bod prydlondeb hefyd yn cael ei gyfrif ac os yw eich plentyn yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol heb ddim rheswm: ar ôl 9.30am, caiff ei gofrestru'n absennol heb ganiatâd.

Ceisiadau am Wyliau

Os ydych chi'n dymuno mynd â'ch plentyn neu'ch plant ar wyliau yn ystod amser tymor rhaid i chi lenwi'r ffurflen Cais am Wyliau (ar gael o'r swyddfa) o leiaf 28 diwrnod cyn mynd i fwrdd.



Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion Cymru – 2010) yn rhoi grym dewisol i benaethiaid i adael i deulu gymryd gwyliau yn ystod amser tymor os yw'r rhieni'n gofyn caniatâd. Ar wahân i amgylchiadau arbennig, ni ellir caniatáu mwy na deg diwrnod o wyliau. Yn Ysgol Bro Hyddgen byddwn yn ystyried yr agweddau canlynol cyn penderfynu caniatáu gwyliau yn ystod amser tymor:

- Ffigyrau presenoldeb ar gyfer y flwyddyn flaenorol. (Byddwn yn disgwyl i bresenoldeb fod yn uwch na 94.7% yn y cynradd; 93.8% yn yr uwchradd)
- Ymddygiad ac agwedd tuag at fywyd ysgol
- Nad yw'r gwyliau'n torri ar draws cyfnodau dysgu pwysig rydym wedi tynnu'ch sylw atyn nhw (fel asesiadau statudol sy'n digwydd ym mis Mai bob blwyddyn)
- Eich bod yn llenwi'r ffurflen Cais am Wyliau yn Ystod y tymor yn gywir ac yn cyflwyno'r cais 28 diwrnod cyn y gwyliau

Byddwn yn anfon bonyn caniatáu/gwrthod caniatáu atoch chi o fewn saith diwrnod ar ôl i ni dderbyn eich cais.

Canlyniad Absenoldebau heb eu Caniatáu

Byddwn yn gwneud cais i roi Hysbysiad Cosb Benodedig os bydd cofnod o bum diwrnod neu fwy (deg sesiwn – bore/prynhawn) o absenoldeb heb awdurdod a bod presenoldeb o dan 90% ar gyfer y flwyddyn academiaidd hyd yn hyn.

Hyderwn y byddwch chi'n cydweithio gyda'r ysgol drwy sicrhau bod eich plentyn yn yr ysgol ac ar amser a thrwy drefnu gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod eich plentyn yn llwyddo yn yr ysgol. Bydd hefyd yn sicrhau nad yw'r ysgol yn syrthio i'r Chwartzeli isaf yn y broses gategoreiddio ysgolion.

Yr eiddoch yn gywir
Haf ap Robert
Pennaeth Cynorthwyol



Presenoldeb / Attendance

Dear Parent/Carer,

We have decided to report on your child's attendance every term.

At Ysgol Bro Hyddgen we want all of our pupils to achieve. It is therefore important that parents do their best to support pupils in attending school for the full 190 days in an academic year, as stated in the Education Regulations (School Day and School Year, Wales - 2006 Amendment).

Under the Education Act (1996), it is the responsibility of the parent or carer to ensure that their child attends school. Regular school attendance is vital and missing school can have a significant impact on achievement over a one year period as illustrated below:


95-100% attendance	Best chance of success	Your child is taking full advantage of every learning opportunity.
90-95% attendance	At least 2 weeks of learning missed	Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.
85-90% attendance	At least 4 weeks of learning missed	Your child may be at risk of under-achieving and may need extra support from you to catch up with work.
80-85% attendance	At least 5 ½ weeks of learning missed	Your child's poor attendance has a significant impact on learning.
Below 80% attendance	At least 7 ½ weeks of learning missed	Your child is missing out on a broad and balanced education. You are at risk of prosecution.

Punctuality

Please note that punctuality is also a factor and if your child arrives at school after registration closes: 9.30 am / 1.50 pm - without good reason, then he/she will be registered as absent without consent for that session.

Holiday Requests

If there are circumstances that mean you have to take a holiday during term time, we ask that you fill in a Holiday Request Form (available from the school office) and return it to school for the attention of the head teacher. The form must be completed at least 28 days before the absence is required to be considered for authorisation.



The Pupil Registration (Wales) Regulations 2010 provide head teachers with a discretionary power to authorise leave for a family holiday during term time where parents seek permission. Save in exceptional circumstances, no more than 10 days leave should be granted for this purpose. The procedure at Ysgol Bro Hyddgen is that all the factors noted below will be taken into consideration before a decision is made as to whether to authorise any periods of holiday requested during term time.

- Attendance figures for the last year. (We would expect attendance to be above 94.7% in the Primary; 93.8% in the Secondary)
- Behaviour and attitude to school life.
- That the holiday does not impact on any key periods of learning identified and highlighted by the school (such as the Statutory Assessments which take place in May each year).
- That the Holiday request Form has been completed correctly and the request has been made 28 days before the holiday.

Unauthorised Absences

It should also be noted that an application for a Fixed Penalty Notice will be considered if there are 5 or more days (10 sessions – morning/afternoon) of unauthorised absence recorded, in addition to the attendance level being below 90% for the school year to date.

We hope that you can cooperate with us on this matter and arrange your holidays around the existing 175 days the school is closed and help us support your child in achieving success in school. In this way we can work together to ensure the school is not placed in a low category in the Schools Categorisation process.

Yours sincerely
Haf ap Robert
Assistant Head Teacher



6 Sioe Nadolig y Campws Cynradd



Hwyl yr Ŵyl

Daeth y tymor i ben ar nodyn uchel a Nadoligaidd iawn wrth i blant Blwyddyn 3 - 6 berfformio'r sioe Hwyl yr Ŵyl i gynulleidfa o rieni balch.

Addasiad o'r ffilm boblogaidd Nativity yw'r sioe sy'n dilyn hynt a helynt Mr Poppy (Max Williams) a'i fodryb, Mrs Bevan (Nancy Tucker-Anthony), Miss Maddens (Sanna El-Radhi-Hall) a'i chariad, Mr John (Hari Smith), mewn ysgol nid annhebyg i Ysgol Bro Hyddgen ar adeg y Nadolig.

Wrth i'r cymeriadau hyn ddod i ddeall ei gilydd yn well mewn cyfres o olygfeydd hwyliog, cafodd y gynulleidfa eu diddanu gan ganu swynol a dawnsio hyfryd - gwledd yn wir i'r glust a'r llygad.

Bu'r staff yn gweithio'n ddiwyd iawn yn hyfforddi'r plant i actio, llefaru, canu ac actio dan arweiniad Mrs Ann Eleri Thomas oedd hefyd yn gyfrifol am y sgript a'r cyfarwyddo. Perfformiad fydd yn siŵr o aros yn hir yn y cof.

Nativity

The term came to an end on a high festive note as Year 3 – 6 children performed the show Nativity to audiences of proud parents.

The show is an adaptation of the popular film Nativity that tells the story of Mr Poppy (Max Williams) and his auntie, Mrs Bevan (Nancy Tucker-Anthony), Miss Maddens (Sanna El-Radhi-Hall) and her estranged partner, Mr John, (Hari Smith), in a school, not so different to Ysgol Bro Hyddgen at Christmas.

As these characters got to understand each other better in a series of fun-filled scenes, the audience were also entertained with lovely singing and beautiful dancing – a festive feast!.

The staff worked hard, teaching the children to act, sing and dance, under the guidance of Mrs Ann Eleri Thomas, who was also responsible for the script and directing. A performance that is sure to be remembered.

Primary Campus Christmas Show



8 Sioe Nadolig y Campws Cynradd



Sioe Nadolig y Campws Cynradd



Cyfnod Sylfaen yn ymweld â'r Orsaf Dân



Fel rhan o'n thema **Pobl sydd yn Helpu**, bu dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn ymweld â Gorsaf Dân Machynlleth. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn dysgu am waith y frigid dân. Cafodd pob plentyn gyfle i esgus fod yn ymladdwr tân a defnyddio'r biben ddŵr i chwistrellu dŵr dros gerbyd. Roedd yn gyfnod cyffrous pan ddaeth galwad brys a'r ymladdwyr tân yn rhuthro i'r injan dân.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Wasanaeth Tân Canolbarth Cymru am roi o'u hamser.

As part of our theme **People who Help Us**, the Foundation Phase classes visited Machynlleth Fire Station. We had an interesting afternoon learning about the work of the fire service. Each child had the opportunity to try using the fire engine's water hose and they all enjoyed pretending to be fire fighters, squirting water over a test vehicle. It was very exciting when an emergency call came in and we watched the firefighters get ready and go out in the fire engine.

We are very grateful to Mid Wales Fire Service for their time.

Llwyddiant Liam!

Mae'r ysgol yn falch iawn o lwyddiant Liam yng ngystadleuaeth tymblo Cymru #UnigolynIachHyderus

The school is very proud of Liam: Welsh Tumbling Champion #HealthyConfidentIndividual





Dathlu Diwrnod Roald Dahl / Celebrate Roald Dahl Day

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd Diwrnod Roald Dahl hynod o lwyddiannus gyda lluo o gymeriadau poblogaidd yr awdur i'w gweld ar y Campws Cynradd. Ynghyd â gwisgo fyny fel un o gymeriadau Roald Dahl, bu'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol gan gynnwys creu cymeriadau, llunio portreadau, darlunio, dilyn ryseitiau a llawer mwy. Mae'r diwrnod arbennig hwn yn sicr yn tanio dychymyg ac yn hybu diddordeb y disgyblion mewn darllen.

Once again this year, a hugely successful Roald Dahl Day was held with a host of popular author characters to see on the Primary Campus. As well as dressing up as one of Roald Dahl's characters, the pupils also took part in various activities including character making, portraiture, drawing, recipe making and much more. This special day certainly stimulates pupils' imagination and interest in books.



12

Llais y Disgybl / Pupil Voice



Arweinwyr Llais y Disgybl / Pupil Voice Leaders

Detholwyd y plant canlynol o Flwyddyn 6 yn Gapteiniaid Ysgol ac maen nhw eisoes wedi cyflawni gwaith da yn cyflwyno gwasanaethau Clod y Pennaeth.

The following year 6 children have been selected as School Captains and have already done a good job delivering the Headteacher's Award assemblies.

Capteiniaid / Captains:

- Betsan Behnan
- Sanna El Radhi-Hall
- Ella Hughes
- Leo Nicholas
- Suzie Oldham
- Freya Pritchard
- Cara Roberts
- Nancy Tucker-Anthony

Cynrychiolwyr Y Cyngor Ysgol	Dosbarth
Grace Stevens & Ella Bullen	Helygen (Bl 5 & 6 cyfrwng Cymraeg)
Esther West	Collen (Bl 5 & 6 cyfrwng Saesneg)
Eurig Mason	Afallen (Bl 4 & 5 cyfrwng Cymraeg)
Nona Jones	Derwen (Bl 3 cyfrwng Cymraeg)
Ollie Hanratty	Masarnen (Bl 3 & 4 cyfrwng Saesneg)
Olivia Thomas	Celynen (Bl 0, 1 & 2 cyfrwng Saesneg)
Charlie Greenwood-Dunn	Bedwen (Bl 1 & 2 cyfrwng Cymraeg)
Cai Rees	Onnen (Bl 0 & 1 cyfrwng Cymraeg)

Cynhaliwyd etholiadau gan bob dosbarth ac etholwyd cynrychiolwyr i'r Cyngor Ysgol Cynradd fel y gwelir yn y tabl:

Elections were held by each class and the elected candidates are listed in the table opposite.




Llais y Disgybl / Pupil Voice

13



Pencampwyr laith	Dosbarth
Morgan Mason	Helygen (Bl 5 & 6 cyfrwng Cymraeg)
Evan Davies	Collen (Bl 5 & 6 cyfrwng Saesneg)
Ollie Roberts	Afallen (Bl 4 & 5 cyfrwng Cymraeg)
Nansi Bell	Derwen (Bl 3 cyfrwng Cymraeg)
Ella Newcombe	Masarnen (Bl 3 & 4 cyfrwng Saesneg)
Hattie Holt	Celynfen (Bl 0, 1 & 2 cyfrwng Saesneg)
Angharad Jones	Bedwen (Bl 1 & 2 cyfrwng Cymraeg)
Non Lloyd	Onnen (Bl 0 & 1 cyfrwng Cymraeg)



Y Siarter Iaith: Cymraeg Iaith Gyntaf a Chymraeg Campus

Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg a gwerth dwyieithrwydd yn ein hymgyrch i ennill Gwobr Arain y Siarter Iaith, detholwyd y disgyblion canlynol i fod yn Bencampwyr Iaith:

Welsh First Language Charter and Cymraeg Campus

In order to promote Welsh and the value of bilingualism in our campaign to win the Language Charter Art Award, the pupils listed in the table opposite have been selected as Language Champions:

Llysgenhadon Chwaraeon

Detholwyd Mia Nicholas a Lewis Fisk yn Llysgenhadon Chwaraeon o Flwyddyn 5. Ddydd Mawrth, 22 Tachwedd, treuliasant ddiwrnod buddiol iawn yn Ysgol Carno yn derbyn hyfforddiant dan arweiniad Ryan Davies, y Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymunedol. Bydd Mia a Lewis yn cydweithio gyda Llysgenhadon Blwyddyn 6: Cai Taylor, Noah Roberts, Arron Roberts a Chloe Jones, er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cadw'n iach a heini ymysg holl ddisgyblion yr ysgol.

Sports Ambassadors

Mia Nicholas and Lewis Fisk were selected as Sports Ambassadors from Year 5. On Tuesday 22 November they spent a very worthwhile day at Ysgol Carno receiving training led by Ryan Davies, the Community Sports Development Officer. Mia and Lewis will be working with Year 6 Ambassadors: Cai Taylor, Noah Roberts, Arron Roberts and Chloe Jones, to promote keeping fit and healthy among all the school's pupils.





**Esther ac Emily: Llysgenhadon Gwych
Ysgol Bro Hyddgen i'r Comisiynydd
Plant**

**Esther & Emily: Ysgol Bro Hyddgen's
Super Ambassadors to the Children's
Commissioner in Wales, Sally Holland**



Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant

Detholwyd Esther West ac Emily Jones yn Llysgenhadon Gwych i'r Comisiynydd Plant. Ddydd Mawrth, 12 Tachwedd, cafodd y ddwy ddiwrnod o hyfforddiant dan arweiniad y Comisiynydd ei hun – Sally Holland. Mae cyfrifoldeb ar y ddwy ac ar yr ysgol i sicrhau bod holl blant yr ysgol yn gwybod am eu hawliau – 54 ohonynt i gyd, er mwyn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn yr ysgol yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Ddydd Gwener, 22 Tachwedd, cyflwynodd Esther ac Emily wasanaeth yn crynhoi'r hawliau hyn ac er mwyn nodi Diwrnod Rhyngwladol y Plant – 20 Tachwedd 2019.

Esther West and Emily Jones have been selected as Ambassadors for the Children's Commissioner. On Tuesday 12 November a training event was led by the Commissioner herself - Sally Holland. The school has a responsibility to ensure that all children in the school know their rights - 54 in all, to try to ensure that every child in the school is happy, healthy and safe. On Friday 22 November, Esther and Emily presented a service summarizing these rights and to mark International Children's Day - 20 November 2019.

Llysgenhadon Chwaraeon

Diolch i weledigaeth Ryan Davies, y Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymunedol, mae'r Llysgenhadon Chwaraeon: Mia Nicholas, Chloe Jones, Cai Taylor, Lewis Fisk, Noah Roberts & Aaron Roberts, yn rhan o brosiect cymunedol ble mae plant yn mynd i mewn i gartrefi'r henoed ac yn cynnal sesiynau ymarfer corff ysgafn gyda'r bobl sy'n byw yno. Mae llysgenhadon Bro Hyddgen yn mynd i Gartref Dyfi ar fore Gwener ac yn treulio orig ddiddig yng nghwmni'r hen bobl. Mae'r sesiynau wedi bod yn hynod boblogaidd gyda'r hen a'r ifanc yn ymateb yn arbennig o dda i'w gilydd. Edrychwn ymlaen at barhau gyda'r prosiect hwn yn y flwyddyn newydd.

Thanks to the vision of Ryan Davies, Community Sport Development Officer, the Sports Ambassadors: Mia Nicholas, Chloe Jones, Cai Taylor, Lewis Fisk, Noah Roberts & Aaron Roberts, are part of a community project where sports ambassadors lead light exercise sessions with the residents. Bro Hyddgen ambassadors go to Cartref Dyfi on a Friday morning and spend a fun time with the elderly. The sessions have been extremely popular with the young and the old responding extremely well to each other. We look forward to continuing this project in the new year.

Llongyfarchiadau mawr i Cerys ar gael ei hethol yn brif ddisgybl am eleni ac i'r dirprwyon, Alex a Malen.

Congratulations to Cerys on being elected as this year's head pupil and to her deputies, Alex and Malen.



Since the beginning of term, we have had many school council meetings to discuss various topics and get the views of the pupils. Are main priorities as a school council are the following:

- The Language Charter and promoting the Welsh language and Welshness;
- Charity work, e.g. targeting polio, supporting a cancer and children charity, Diabetes UK, Welsh Air Ambulance;
- Targeting homophobia, sexism and racism in the school;
- Re-establishing the eco-committee on the secondary campus;
- Consider what is useful homework

Some of the ways we wish to tackle these are:

We hope to organise events such as discos with welsh bands and music to help promote the welsh language and the welsh culture. Organise own clothes days but also other alternative ways of raising money for charity. An example of this would be from one of the school council members Ieuan Jones organising a 'Who Wants to be a millionaire' show during lunch to help raise money for children in need. The Head-Pupils main priority this year is to tackle homophobia, sexism and racism in the school to make sure that every pupil feels safe and valued in the school. To achieve this Cerys has started a group of like-minded pupils, in school, to support each other and would like to begin organising workshops and assemblies. In the future we would like to continue our work in raising money but organise things such as football games vs the teachers to also raise money for the charities. We would also like to continue with the regular meetings to make sure we hear the views of the pupils and their opinions on the subject.

Alex Monnox

Ers dechrau'r tymor, rydym wedi cael llawer o gyfarfodydd cyngorau ysgol i drafod pynciau amrywiol a chael barn y disgyblion. Ein prif flaenoriaethau fel cyngor ysgol yw fel a ganlyn:

- Y Siarter Iaith a hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod
- Gwaith elusennol, e.e. targedu polio, cefnogi elusen canser a phlant, Diabetes UK, Ambiwllans Awyr Cymru
- Targedu homoffobia, rhywiaeth a hiliaeth yn yr ysgol
- Ail-sefydlu'r eco-bwyllgor ar y campws eilaidd
- Ystyried beth sy'n waith cartref defnyddiol

Rhai o'r ffyrdd yr ydym am fynd i'r afael â'r rhain yw:

Rydym ni'n gobeithio trefnu digwyddiadau fel disgos gyda bandiau Cymraeg a cherddoriaeth i helpu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Trefnu diwrnodau dillad eich hun ond hefyd ffyrdd amgen eraill o godi arian at elusen. Enghraifft o hyn fyddai ffurf un o aelodau'r cyngor ysgol Ieuan Jones yn trefnu sioe 'Who Wants to be a millionaire' yn ystod amser cinio i helpu i godi arian ar gyfer plant mewn angen. Prif flaenoriaeth y Prif Ddisgyblion eleni yw mynd i'r afael â homoffobia, rhywiaeth a hiliaeth yn yr ysgol i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael ei werthfawrogi yn yr ysgol. I gyflawni hyn mae Cerys wedi cychwyn grŵp o ddisgyblion o'r un anian yn yr ysgol i gefnogi ei gilydd a hoffent ddechrau trefnu gweithdai a gwasanaethau. Yn y dyfodol hoffem barhau â'r gwaith o godi arian drw drefnu pethau fel gemau pêl-droed yn erbyn yr athrawon i godi arian i'r elusennau hefyd. Hoffem hefyd barhau â'r cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau ein bod yn clywed barn y disgyblion a'u barn ar y pwnc.

Alex Monnox



Gweithdy cerflunio gyda Ben Jones



I'r rhai a gafodd y cyfle i weld cerfluniau cryf ac egniol y cerflunydd Ben Jones yn MOMA dros y misoedd diwethaf, rwy'n siwr y byddech yn cytuno fod disgyblion celf TGAU a Lefel A yr Adran Gelf yn ffodus iawn o gael y cyfle i fynyachu gweithdy yn ei gwmni. Ar Hydref 23ain, aeth criw o ddisgyblion draw i MOMA i gael cipolwg ar y grefft o naddu cerrig a llechi i ffurfio tirluniau ohonynt. Gweithdy gwbl ymarferol ble roedd modd mynd ati ar unwaith gyda morthwyl a chun i siapio'r deunydd anfaddeugar i greu darnau o waith unigol a mynegiannol iawn a oedd yn cyfleu siap a ffurf y tirlun gwledig o'n cwmpas. Bydd y darnau unigryw hyn yn ffurfio sail i waith pellach ar dirluniau o fewn y dosbarth.

Diolch i MOMA a'r artist am y cyfle gwych hwn.

For those who had the opportunity to see sculptor Ben Jones' strong and energetic sculptures at MOMA over the past few months, I'm sure you would agree that the Art Department's GCSE and A level art students are very fortunate to have the opportunity to attend a workshop at his company. On October 23rd, a group of pupils visited MOMA to gain an insight into the art of carving stone and slate to form landscapes of them. A fully hands-on workshop where the hammer and shaft could be immediately shaped to shape the unforgiving material to create highly individual and expressive pieces that conveyed the shape and form of the surrounding rural landscape. These unique pieces will form the basis of further work on landscapes within the classroom.

Thanks to MOMA and the artist for this wonderful opportunity.



Gweithdy Julia Griffith Jones

17



Ar y 24ain o fis Hydref eleni fe aeth dosbarthiadau celf a thecstilïau blynyddoedd 10, 12 a 13 i ganolfan celfyddydau Aberystwyth ar gyfer gweithdy gwaith weiren hefo Julia Griffiths Jones. Dechreuodd y sesiwn drwy ddysgu technegau weiren newydd i ni a sut i'w drin. Mi aethom â darn o waith o'r ysgol gda ni er mwyn ei greu mewn weiren ac yna roedd Julia yn rhoi arweiniad i ni sut i blethu'r gwaith at ei gilydd a pha faint weiren fyddai'r gorau ar gyfer ein darn. Roedd yn llawer o help i ddatblygiad ein gwaith drwy gael ei hadborth yn syth ar beth fyddai'r cam nesaf. Yna ar ôl cinio fe aethom i weld arddangosfa o'i gwaith ble esboniodd gefndir, syniadau a'i phrofiad o gael ysbrydoliaeth ar ei thaith yn yr India. Cawsom ddiwrnod buddiol ac mi fyddai'r sgiliau a ddysgom ar y diwrnod yma yn sail ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol.

gan Swyn Hughes, Blwyddyn 13

On the 24th of October this year art and textile classes years 10, 12 and 13 went to Aberystwyth arts center for a wirework workshop with Julia Griffiths Jones. The session started with learning new wire techniques and how to handle it. We took a piece of work from a ladder to create in wire and then Julia gave us guidance on how to tie the work together and what wire size is best for our piece. It was a great help to the development of our work to get immediate feedback on what the next step should be. Then after lunch we went to see an exhibition of her work where she explained the background, ideas and experience of inspiration on her India tour. We had a rewarding day and the skills we learned on this day would form the basis of our future work.

by Swyn Hughes year 13

Sgwter y Pennaeth

Diolch i'r mudiad Sustrans am gyflwyno dau sgwter yn rhodd i'r ysgol ac am ein cefnogi i gynnal Teithiau Iach i'r ysgol. Caiff y ddau sgwter eu rhoi ar fenthyg am wythnos i un disgybl o'r Cyfnod Sylfaen ac un o'r Adran Iau am fod wedi ennill Clod y Pennaeth yr wythnos - ar ôl tynnu eu henwau allan o het yr enillwyr.

The school would like to thank Sioned Lewis Sustrans Schools Officer, for donating two scooters to the school and for supporting us in running Healthy Walks to school. The two scooters are loaned for one week to one Foundation Phase pupil and one from the Junior Department for having won the Headteacher's Commendation of the week - after taking their name out of the winners' hat.



@brohyddgen



18

Croeso i Blant Newydd y Cyfnod Sylfaen *Welcome to New Pupils in the Foundation*

Amber

Jolly Post Office



Rydw i'n mwynhau gweithio yn y Swyddfa Bost .

I enjoy working in the Post Office

Dafydd



Rydw i yn hoffi peintio.

I like painting.

Efan



Rydw i yn mwynhau adeiladu gyda blociau.

I enjoy building with blocks.

Ellie Mae



Rydw i yn hoffi ysgrifennu.

I like writing.

Ffion



Rydw i yn mwynhau darllen.

I enjoy reading

Minnie



Rydw i yn hoffi chwarae yn yr ardal lego.

I like playing in the lego area .



Llawysgrifen Orau

19

Blwyddyn / Dosbarth	Enillydd
Derbyn	Adele Jones
Blwyddyn 1	Owain Jones
Blwyddyn 2	Olivia Thomas
Dosbarth Masarnen	Olly Nelson
Dosbarth Derwen	Daisy Oldham
Dosbarth Afallen	Ffion Jones
Dosbarth Collen	Nancy Tucker-Anthony
Dosbarth Helygen	Cara Roberts



Mewn ymdrech i hyrwyddo gwerth llawysgrifen daclus a darllenadwy, cynhelir cystadleuaeth Llawysgrifen Orau unwaith bob tymor. Gofynnir i holl blant yr ysgol gopïo darn o farddoniaeth yn eu llawysgrifen orau a cheir ceisiadau teilwng iawn – gwaith anodd i'r beirniad! Cyhoeddir uchod enillwyr y tymor hwn.

In an effort to promote the value of neat and legible handwriting, a Best Handwriting competition is held once a term. All children in the school are asked to copy a piece of poetry in their best handwriting. Some very worthy entries were presented this term - difficult work for the judge! This term's winners are listed above.

Ymweliad Sioe CIP

Ddydd Mercher, 4 Rhagfyr, bu Tudur Phillips a Sioned o'r Urdd draw yn cyflwyno sioe CIP, er mwyn hyrwyddo gwerthiant y cylchgrawn Gymraeg i blant 7-11 oed. Cafwyd llawer iawn o hwyl wrth wylïo'r plant a'r athrawon yn dweud jôcs, yn cymryd rhan mewn cwis a gorau oll, yn gwisgo i fyny ac yn cymryd rhan yn y sioe. Prynawn gwych!

On Wednesday 4 December, Tudur Phillips and Sioned from the Urdd presented a CIP show, promoting the sale of the Welsh language magazine to 7-11 year olds. We had a lot of fun watching the children and teachers telling jokes, taking part in quizzes and best of all, dressing up and taking part in the show. What a great afternoon!



@brohyddgen





Canlyniadau TGAU ardderchog eto eleni



Gwnaethpwyd cynnydd derbyniol ar ganlyniadau TGAU llwyddiannus llynedd.


Unwaith eto eleni, roedd canlyniadau TGAU Blwyddyn 11 Ysgol Bro Hyddgen yn rhai a oedd yn adlewyrchiad teg iawn o ddatblygiad pob unigolyn tra'r oeddent yn ddisgybl yn yr ysgol. Dywedodd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones, ei fod yn hapus iawn i longyfarch llwyddiant y disgyblion: "Cafwyd canlyniadau ardderchog gan y flwyddyn hon unwaith eto gyda chyfradd pasio pob pwnc yn 100% eleni. Gweithiodd y disgyblion yn galed iawn i gyrraedd eu targedau. Hoffwn ddiolch i'r athrawon am addysgu'r dysgwyr mor effeithiol ac hefyd i'r rhieni am gefnogi'r amryfal sesiynau mentora ychwanegol sydd ar waith yn yr ysgol hon. Mae'r rhan fwyaf o'r cohort yn dychwelyd i astudio yn y chweched dosbarth ynghyd â disgyblion sy'n ymuno â ni o du hwnt i ardal yr ysgol."

Ymysg y goreuon roedd:

- Joseph Lewis – 4A*, 5A, 2B, Teilyngdod mewn Maths Pellach
- Mari Elin Williams – 1A*, 7A, 2B ac 1C
- Lily Shone – 1A*, 5A a 6B
- Ella Preston – 5A ac 8B
- Ffion Duke – 2A*, 3A, 6B, 1C, Teilyngdod mewn Maths Pellach

GCSE Results at Ysgol Bro Hyddgen 2019

21



**Ysgol Bro Hyddgen
makes pleasing progress
on last year's successful
GCSE results**



Yet again this year, the results of the Ysgol Bro Hyddgen year 11 pupils across all levels of ability reflect their fabulous progress at the school. Mr Dafydd Jones, the Headteacher; is very happy to be congratulating pupils on their praiseworthy achievements: "The cohort as a whole produced excellent results and I'm very proud to see the pupils fulfilling their potential. This year there was an outstanding 100% pass rate in all subjects; the pupils have worked very hard over the past two years towards achieving these results. I would like to thank the teachers and other staff who have taught and supported the pupils so effectively, and parents have also been central to the success achieved on this occasion by supporting mentoring initiatives which are in place at the school. Most of the students from this cohort will now be returning to Ysgol Bro Hyddgen to study A levels and equivalent vocational courses, and will be aiming to achieve further success in two years' time. The school is also very pleased to be welcoming a significant number of new students to the Sixth Form in September from other areas beyond the school's catchment area".

Amongst the highest performers were:

- Joseph Lewis – 4A*, 5A, 2B, Merit in Extra Maths
- Mari Elin Williams – 1A*, 7A, 2B and 1C
- Lily Shone – 1A*, 5A and 6B
- Ella Preston – 5A and 8B
- Ffion Duke – 2A*, 3A, 6B, 1C, Merit in Extra Maths





Canlyniadau Safon Uwch Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth



Dathlu llwyddiant canlyniadau Safon Uwch yn Ysgol Bro Hyddgen

Mae staff a myfyrwyr Ysgol Bro Hyddgen yn falch iawn o ganlyniadau'r Chweched Dosbarth eleni. Mae'r pynciau sy'n cyflawni 100% A* - C mewn lefelau A yn cynnwys Cymraeg, Cerdd, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Ffrangeg a Celf. Cyflawnodd pob myfyriwr mewn cyrsiau galwedigaethol i safon Teilyngdod neu well, gydag 87% ar lefel Anrhydedd* neu Anrhydedd.

Mae bron pob myfyriwr wedi cael y graddau neu'r sgōr pwyntiau sy'n ofynnol iddynt fynd i mewn i'r brifysgol o'u dewis – gan gyrraedd eu targedau personol, sydd yn gyson yn dargedau heriol. Mae llawer wedi ennill lleoedd ar gyrsiau cystadleuol iawn mewn rhai o'r prifysgolion uchaf eu parch yn y wlad. Mae cymwysterau'r myfyrwyr wedi eu galluogi i ddechrau astudio ar gyfer cyrsiau gradd mewn pynciau mor amrywiol â Ffarmacoleg, Swoleg, Cemeg, Cerddoriaeth, Radiograffeg, Pensaerniaeth, a Saesneg.

Dywedodd y Pennaeth, Mr Dafydd Jones, ei fod yn awyddus i gydnabod bod llwyddiant pob myfyriwr wedi digwydd nid yn unig yn sgil eu gwaith caled eu hunain ond hefyd ymrwymiad, cefnogaeth ac ansawdd addysgu o safon uchel gan staff yr ysgol. "Mae'r rhain yn ganlyniadau ardderchog ac yn adlewyrchu gwaith caled ac ymroddiad y myfyrwyr, rhieni a staff Ysgol Bro Hyddgen i sicrhau bod gan bobl ifanc yn ein cymuned y cyfleoedd bywyd gorau posibl wrth anelu am eu llwybrau gyrfa dewisol. Hoffwn longyfarch yr holl fyfyrwyr a dymuno'r gorau iddyn nhw wrth iddynt symud ymlaen i'r brifysgol neu i fyd gwaith. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn i glywed am eu llwyddiant parhaus yn y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych ymlaen fel ysgol eto y flwyddyn nesaf i gynyddu maint ein chweched dosbarth, ac eto'n croesawu nifer sylweddol o fyfyrwyr newydd o du hwnt i'r dalgylch i ymuno â ni yn ein chweched dosbarth "

Ymhlith y perfformwyr uchaf yn Safon Uwch roedd:

- Aur Bleddyn – ABCC
- Harriet Bletcher – AABC
- Aeryn Carpenter – ABC Anrhydedd* a Theilyngdod
- Seren Faber A*C
- Celt John ABCC
- Stefan Jones ACC Anrhydedd
- Owen Kimpton AAAC
- Lewys Meredydd A*ABB
- Maccsen Tomos ABCC

A Level Results 2019

23



Celebrating A level success at Ysgol Bro Hyddgen

Celebrating A level success at Ysgol Bro Hyddgen

- 72% of the awarded grades are in the A*-C range at A levels.
- Overall, 100% of Year 13 students have achieved at least 2 A*-E grades or equivalent.

Ysgol Bro Hyddgen staff and students have been very pleased with this year's Sixth Form results. Subjects achieving 100% A*-C at A levels include Welsh, French, Religious Education, Music, Geography and Art. 100% success was seen in the vocational subjects with 87% of the results being Distinction Star or Distinction.

Almost all students have obtained the grades or points score required for them to enter the university of their choice – attaining their personal, and often challenging targets. Many have achieved places on very competitive courses at some of the most respected universities. The students' qualifications have enabled them to start studying for degree courses in subjects as diverse as Pharmacology, Zoology, Chemistry, Forensic Science, Music, Diagnostic Radiography, Welsh, Art, Geography, Textile Design, Sports and Exercise Science, Quantity Surveying, Politics, and Archaeology and Anthropology in prestigious universities across the country.

Headteacher, Mr Dafydd Jones, said that he's keen to acknowledge that each student's success has been brought about not just by their own hard work but also the commitment, support and high quality teaching of staff at the school. "Yet again this year, these are very pleasing results and reflect the hard work and commitment of the students, parents and Ysgol Bro Hyddgen's staff to ensure the young people within our community have the best possible life chances whilst aiming for their chosen career paths. I would like to congratulate all the students and wish them the very best as they move on to university or into employment."

Ysgol Bro Hyddgen students have already been celebrating their successes this summer in various fields including Lewys Meredydd winning the male solo under 19 at the National Eisteddfod in Llanrwst. Also, Swyn Hughes and Aur Bleddyn have been successful in achieving the Tabernacle art scholarship, and Swyn also won the junior art competition as part of the acclaimed Machynlleth Festival.

Among the highest performers at A level were:

- Aur Bleddyn – ABCC
- Harriet Bletcher – AABC
- Aeryn Carpenter – ABC Distinction * and Merit
- Seren Faber A*C
- Celt John ABCC
- Stefan Jones ACC Distinction
- Owen Kimpton AAAC
- Lewys Meredydd A*ABB
- Maccsen Tomos ABCC

Commendable performances were also seen at AS level including:

- Tomos Chick – AAB
- Cerys Hickman – AAAA
- Rose Williamson – AAC



Noson Agored Y Chweched Dosbarth

Sixth Form Open Evening

Nos Lun, 27ain Ionawr 6yh
Monday, January 27th 6pm

Cewch gyfle i gwrdid â'r athrawon ac i glywed am:

- Datgariadaeth Ôl 16 yr ysgol
- Cylleadau Gwaith & Hyfforddiant
- Llybriau Astudio Posibl
- Sgiliau a Chymysasterau

You will have the opportunity to meet the staff and hear about:

- The school's Post 16 Provision
- Work & Training Opportunities
- Possible Route Options
- Skills and Qualifications





Os na allwch chi fyrrychu'r noson, cysylltwch â'r ysgol ar 01654 704200 am ragor o wybodaeth ac i dderbyn copi o'r prospectws neu ewch i www.brohyddgen.cymru

If you're unable to attend the evening, please phone the school on 01654 704200 to receive a copy of the prospectus or visit www.brohyddgen.cymru



@brohyddgen



Ymweliad Dosbarth Derwen i Fwlch Corrog



Yweliad Dosbarth Derwen â Bwlch Corrog gan Daisy Oldham

Ddydd Mawrth, 24 Medi, aeth Dosbarth Derwen i Fwlch Corrog, wrth ymyl Glaspwll, i ddysgu sut y gallwn ni helpu'r amgylchedd. Roedd hi'n ddiwrnod gwlyb iawn a phan gyrhaeddwn ni roedd angen bwced ond nid oedd neb yn gwybod pam, felly dyma rai yn ei rhoi ar eu pennau i gadw'n sych! Cafodd pawb gyfle i gynhesu wrth y tân cyn mynd i'r goedwig i gasglu planhigion a mwy. Gwelais chwilen ENFAWR!! Dysgon ni sut mae'r goedwig yn llawn mathemateg! Dysgon ni hefyd am y troellau sydd mewn byd natur. Roedd na lawer o siapiau ar y letys, mochyn y coed a mwy! Cawsom gyfle i wneud mandala ein hunain a gwnes i, Martha a Nansi dŷ tylwyth teg hefyd! Cawsom ni i gyd lawer o hwyl yn chwarae Ystlym a Gwyfyn. Pwrpas y gêm oedd i'r ystlym ddal y gwyfyn. Diolch yn fawr am ddiwrnod gwerth chweil.

Derwen Class Visit to Bwlch Corrog by Daisy Oldham

On Tuesday 24th September Derwen class went to Bwlch Corrog, near Glaspwll, to learn how we can help the environment. It was a very wet day and when we arrived we needed a bucket but no one knew why, so some people put it on their heads to keep themselves dry! Everyone had a chance to warm up by the fire before going to the woods to collect plants and more. I saw a BIG beetle! We learned how the forest is full of maths! We also learned about the spirals in nature. There were lots of shapes on the lettuce, bacon and more! We had a chance to make our own mandala and I, Martha and Nansi made a fairy house too! We all had a lot of fun playing Bat and Moth. The purpose of the game was for the bat to catch the moth. Thank you so much for a worthwhile day.

Traws-gwlad Cylch Bro Ddyfi

25



Cafodd disgyblion o Flwyddyn 1 hyd at Flwyddyn 6 y cyfle i gymryd rhan yn rasys traws gwlad gyda disgyblion ysgolion y Ffederasiwn a gynhaliwyd ar gaeau chwaraeon Campws Uwchradd Ysgol Bro Hyddgen. Bu cystadlu brwd a phawb yn gwneud eu gorau i gyrraedd y llinell derfyn. Roedd yn amlwg bod y sesiynau Dal i Fynd ar y campws Cynradd yn talu eu ffordd wrth i nifer fawr o'r disgyblion orffen y ras yn gryf. Diolch i'r Llysgenhadon Chwaraeon uwchradd am eu cefnogaeth a'u hanogaeth. Bydd y 6 cyntaf o bob ysgol yn cael gwahoddiad i'r rownd nesaf ym Mharc Hafren, Y Drenewydd, yn y flwyddyn newydd, i gystadlu yn erbyn rhai o ardaloedd eraill Maldwyn.

Pupils from Year 1 to Year 6 took part in the cross country races with pupils from the Federation schools, which was held at Ysgol Bro Hyddgen High School sports fields. It was a fun-filled morning of healthy competition with everyone trying their best to reach the finish line. It was clear that the daily running sessions on the Primary campus were paying off as a good number of pupils finished their race in a good position. Thank you to the secondary Sports Ambassadors for their support and encouragement. The first 6 from each school will be invited to the next round in Severn Park, Newtown in the New Year, to compete against other areas of Montgomery.

Microsoft Office am ddim!
Free copy of Microsoft Office!

Mewngofnodi i e-bost Office 365 chi a dewis "Install Office"
Login to your Office 365 email account and select "Install Office"

Noson Agored Y Chweched Dosbarth
Sixth Form Open Evening

Nos Lun, 27ain Ionawr 6yh
Monday, January 27th 6pm

Cewch gylle i gwrdd â'r athrawon ac i glywed am:

You will have the opportunity to meet the staff and hear about:

- Datbariaeth ôl 16 yr ysgol
- Cyfleoedd Gwaith & Hyfforddiant
- Llyfrau Astudio Posibl
- Sgiliau a Chymwestrau
- The school's Post 16 Provision
- Work & Training Opportunities
- Possible Route Options
- Skills and Qualifications

Os na allwch chi fynychu'r noson, cyswllt bach â'r ysgol ar 01654 704200 am ragor o wybodaeth ac i dderbyn copi o'r prospectus neu ewch i www.brohyddgen.cymru

If you're unable to attend the evening, please phone the school on 01654 704200 to receive a copy of the prospectus or visit www.brohyddgen.cymru



@brohyddgen



26 Taith Gwlad y Basg

Ewch i'n gwefan ni / Go on
our website:

www.CS4ESD.eu



Dyfarwyd grant ERASMUS + i'r ysgol i weithio gyda phartneriaid mewn safleoedd UNESCO eraill fel Dyffryn Dyfi neu Wlad y Basg (Sbaen) a Mount Olympus (Patras, Gwlad Groeg). Mae'r ysgol yn gweithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant (Canolfan technoleg amgen a Geo Smart Decisions) i ddatblygu adnoddau addysgu ac ap i helpu i gofnodi data ar amgylchedd addysgol ac i hyrwyddo gwyddoniaeth ddinasyddol. Fel rhan o'r grant roeddem yn gallu ariannu 18 o ddisgyblion o flwyddyn 8 i ymweld â Gwlad y Basg i brofi a datblygu ymhellach fersiwn gyntaf yr ap rydyn ni'n ei ddatblygu gydag ysgolion eraill. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ymweld â Mount Olympus yng Ngwlad Groeg ym mis Mawrth i ddatblygu'r ap ymhellach ac i roi cynnig ar y deunyddiau addysgu newydd rydyn ni wedi'u creu gydag ysgolion eraill. Ewch i'r wefan i gael mwy o wybodaeth!

The school has been awarded a ERASMUS+ grant to work with partners in other UNESCO sites such as the Dyfi Valley in the Basque Country (Spain) and Mount Olympus (Patras, Greece). The school is working with industry experts (Center of alternative technology and Geo Smart Decisions) to develop teaching resources and a app to help data logging educational environmental data and to promote citizen science. As part of the grant we were able to fund 18 pupils from year 8 to visit the Basque Country to test and further develop the first version of the app we are developing with other schools. We are looking forward in visiting Mount Olympus in Greece in March to further develop the app and to try out the new teaching materials we have created with other schools. Visit our website for more information!



Trip to the Basque Country



28 Taith Gwlad y Basg



Trip to the Basque Country



30 Perfformiad Macbeth

Perfformiad Bl 4, 5 & 6 cyfrwng Saesneg o'r ddrama Macbeth

Year 4, 5 & 6 English medium performance of the play Macbeth



Ers dechrau'r tymor mae disgyblion Bl 4, 5 & 6 y cyfrwng Saesneg wedi bod yn brysur iawn yn astudio ac yn ymarfer ar gyfer perfformio addasiad o'r ddrama Macbeth. Nos Fawrth 5 Tachwedd cafwyd perfformiad bythgofiadwy gan y cast ifanc yn Theatr y Werin, Aberystwyth. Mae'r ysgol yn falch iawn o gyflawniad y plant ac yn cydnabod cefnogaeth y gymdeithas Rheini ac Athrawon a'r mudiad Shakespeare Schools Foundation.

Since the beginning of term, English medium Yr 4, 5 & 6 pupils have been very busy studying and rehearsing to perform an adaptation of the play Macbeth. Tuesday 5 November saw an unforgettable performance by the young cast at Theatr y Werin, Aberystwyth. The school is very proud of the children's achievements and acknowledges the support of the Parent Teacher Association and the Shakespeare Schools Foundation.

Gŵyl Rygbi Blwyddyn 8

Da iawn i bawb wnaeth gynrychioli'r ysgol yn yr Wyl Rygbi i flwyddyn 8 ym Mro Hyddgen.

Daeth Ysgol Bro Idris, Ysgol Uwchradd Llanidloes ac Ysgol Uwchradd y Drenewydd draw i Fro Hyddgen ar gyfer y twrnamaint. Roedd hi'n gystadleuaeth agos iawn rhwng y pedwar tîm. Ond bechgyn Bro Hyddgen ddaeth i'r brig gan ennill pob gêm! Fe wnaethoch chwarae rygbi arbennig o dda. Da iawn chi fechgyn!

Well done to everyone who represented the school at the Rugby Festival for year 8 in Bro Hyddgen today!

Ysgol Bro Idris, Llanidloes High School and Newtown High School came to Bro Hyddgen for the tournament. It was a very close competition between the four teams. But the Bro Hyddgen boys came out on top winning every game! You played rugby really well. Well done boys!



Macbeth

31



Year 4, 5 & 6 Collen and Masamen classes studied the play Macbeth by William Shakespeare .

My main part in the play was Banquo and my favorite scene was the banquet scene because I became a ghost and haunted Macbeth.

We performed the play on the main stage in Aberystwyth Arts Centre on Tuesday 5 November

It was fun performing on stage but it was also a bit scary.

My favorite quote was "What are these that do not look like the inhabitants of the earth and are yet on it".

By Cai Taylor

Year 4, 5 & 6 Masamen and Collen classes studied the play Macbeth by William Shakespeare . My part in the play was the 1st witch. We performed at the Arts centre in Aberystwyth on the 5th of November .

I enjoyed performing the play because it was so much fun. My favorite line was "Double, double toil and trouble, fire burn and cauldron bubble."

By Phoebe Wright



@brohyddgen



Croeso Blwyddyn 7!



Tymor cyntaf llwyddiannus iawn i'n Blwyddyn 7 newydd sydd wedi ymgartrefu mewn i addysg uwchradd yn ardderchog yn dilyn ein rhaglen drosglwyddo llynedd.

A very successful first term for our new Year 7 who have settled in really well to life in secondary education following our successful transition programme last year.

Clwb Gwaith Cartref / Homework Club

“Mae'r clwb gwaith cartref yn lle gyda llawer o ysbrydoliaeth. Mae Sam yn rhoi croeso mawr i ni ac yn ein helpu ni gyda ein gwaith a'n cynnydd. Mae hi'n glên iawn ac yn derbyn pawb i'r clwb. Mae hi yn helpu fi yn bersonol os dw i'n gweld y gwaith yn anodd ac mae hi'n gwneud i ni chwerthin hefyd. Dewch i'r clwb bob diwrnod rhwng 3:25 a 4:30.”

“Homework club is an inspirational place to be! Sam is welcoming; she is helpful and she is always encouraging us to do really well. She is nice and polite; she accepts everyone in the homework club. Sam helps us if we are struggling and she makes us laugh! Come to club every day after school from 3.25 to 4.30pm. Homework club is a joyful place to be.”



Wythnos Her Rhifedd

33



Braf oedd gweld cymaint o blant yn mwynhau ymateb i'r Her Rhifedd gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Hydref. Dyma'r enillwyr:

It was great to see so many children enjoying responding to the Numeracy Challenge held during the week beginning 21 October. The winners were:

Yr Her	Enillwyr	Dosbarth
Y Poster Mwyaf	Adele Jones	Dosbarth Onnen
Y Llyfr Ysgafnaf	Elyan davies	Dosbarth Bedwen
Y Ddeilen gyda'r perimedr mwyaf	Ruby Cook	Dosbarth Afallen
Y Bwmpen gyda'r Cylchedd Mwyaf	Lilly ac Evan Davies	Dosbarth Bedwen a Collen

Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd

Ddydd Mawrth, 1 Hydref, bu dau dîm o'r Campws Cynradd yn cystadlu yn nhrwnament pêl-rwyd yr Urdd yna Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi. Fe wnaeth y ddau dîm ymdrech ragorol wrth gystadlu yn erbyn timau o Ysgolion y Ffederasiwn. Llongyfarchiadau arbennig i Dîm A fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd rhanbarthol ym mis Ionawr. Da iawn bawb fu'n cymryd rhan.

On Tuesday 1 October two teams from the Primary Campus competed in the Urdd netball tournament at Bro Ddyfi Leisure Center. Both teams made excellent efforts in competing against teams from Federation Schools. Special congratulations to Team A who will go on to compete in the regional round in January. Well done everyone involved.



@brohyddgen



34 Apiau Cymraeg

	<p>Cyfri gyda Cyw Learn numbers 1 – 10. Practise writing the numerals.</p>
	<p>Cyw a'r Wyddor Learn the alphabet. Practise writing the letters.</p>
	<p>Byd Cyw Play games to earn prizes such as flowers to put in a vase, songs to listen to on the radio, and plants to put in the field.</p>
	<p>Cyfri Defaid a'u ffrindiau Tap your finger once on the clipboard for every animal that is in the field and then check the total.</p>
	<p>Ffion yn y meddygfa Click on the items shown on the screen to check on Ffion's health.</p>
	<p>Gorsaf Dân Ffion Click on the fire engine to play a game bursting balloons using the water hose.</p>
	<p>Croesi'r Ffordd gyda Ffion Press the button at the zebra crossing and help Ffion's friends to cross the road at the right time.</p>
	<p>Alun yr Arth – Ar y Fferm Click on an area of the farmyard for activities such as dressing a bear, guessing the animal, paying for items in the farm shop, etc.</p>
	<p>Celf gyda Sam Learn names of colours and shapes. Colour in pictures, draw shapes and patterns.</p>
	<p>Llythrennau Listen to letter sounds. Spell 3 letter words. Listen to 3 letter words being sounded out.</p>
	<p>Rhifau Match number bonds cards. Choose + - and x sums to try and get as many correct as possible as quickly as possible.</p>



Welsh Apps

35

	<p>Cyfri gyda Cyw Learn numbers 1 – 10. Practise writing the numerals.</p>	
	<p>Cyw a'r Wyddor Learn the alphabet. Practise writing the letters.</p>	
	<p>Byd Cyw Play games to earn prizes such as flowers to put in a vase, songs to listen to on the radio, and plants to put in the field.</p>	
	<p>Cyfri Defaid a'u ffrindiau Tap your finger once on the clipboard for every animal that is in the field and then check the total.</p>	
	<p>Ffion yn y meddygfa Click on the items shown on the screen to check on Ffion's health.</p>	
	<p>Gorsaf Dân Ffion Click on the fire engine to play a game bursting balloons using the water hose.</p>	
	<p>Croesi'r Ffordd gyda Ffion Press the button at the zebra crossing and help Ffion's friends to cross the road at the right time.</p>	
	<p>Alun yr Arth – Ar y Fferm Click on an area of the farmyard for activities such as dressing a bear, guessing the animal, paying for items in the farm shop, etc.</p>	
	<p>Celf gyda Sam Learn names of colours and shapes. Colour in pictures, draw shapes and patterns.</p>	
	<p>Llythrennau Listen to letter sounds. Spell 3 letter words. Listen to 3 letter words being sounded out.</p>	
	<p>Rhifau Match number bonds cards. Choose + - and x sums to try and get as many correct as possible as quickly as possible.</p>	



36 Apiau Cymraeg



	Anagramau Ail iaith Re-arrange the letters to spell the name of the item shown in the picture. Timed challenges on 3 levels.	
	Brawddegau Ail iaith Re-arrange the words to create the sentence. Includes questions, different tenses, opinions, and language patterns linked to school.	
	Sillafu Ail iaith Type out the words correctly: create plurals, listen and type, translate and type, type the word in the picture.	
	Tric a Chlic Learn the letter sounds, how to write them and then play games to reinforce letter sounds and word recognition. (Years 2 – 4)	
	Cyfes Cychwyn Eto Simple story books with sound to help pronunciation. 3 vocabulary games for each story. (Years 2 & 3)	
	Llyfrau Bach Magi Ann; Llyfrau Hwyl Magi Ann 1 – 5 Simple stories with sound and English translations. Six apps each containing several stories. (Foundation Phase)	
	Ap Geiriaduron English-Welsh / Welsh-English dictionary with no ads. Very comprehensive vocabulary sourced from a variety of dictionaries.	
	Urdd: Fy Ardal Find out what events the Urdd have organised for your area.	
	Urdd: Eisteddfod Lots of information for use during eisteddfod week. Also, click on 'competitions', select a day and a competition and watch video clips of last year's winners.	
	Say Something in Welsh For older children and adults. Learn how to speak Welsh by listening and repeating vocabulary and phrases. Very popular with adults learning Welsh.	
		
	Ap Treiglo Search for a word to see if it causes a mutation. Look up the mutation rules.	



Welsh Apps

37

iBooks

	<p>Fflic a Fflac All of the Fflic a Fflac books from the 4 sets can be purchased for 49p each.</p>
	<p>Llyfrau Cymru Download this app from the Welsh Books Council which allows you to purchase iBooks such as 'Alun yr Arth' (suitable for Foundation Phase) and 'Gwahanoll! Chwaraeon gwahanol' (key stage 2).</p>

Dwyieithrwydd - Bilingualism

	<p>Sut mae pethau'n gweithio Bilingual science app – How things work.</p>
	<p>Y ddaear gynaliadwy Bilingual science app – The sustainable earth.</p>
	<p>Cydd-dibyniaeth organebau Bilingual science app – The interdependence of organisms.</p>
	<p>Trydan a Chi Bilingual science app – Electricity and You. Put the pictures in the correct places to show how electricity gets to our homes.</p>
	<p>iBooks – On y va 1 & On y va 2 Learn basic French phrases.</p>



38 Clod y Pennaeth



Clod y Pennaeth a 4 Diben y Cwricwlwm

Mae gwasanaeth Clod y Pennaeth bellach wedi ennill ei blwyf fel achlysur dathlu llwyddiannau ac ymdrech a hefyd fel cyfrwng ar gyfer cysylltu'r enwbiadau i 4 Diben Y Cwricwlwm, sef y cwricwlwm newydd sydd yn seiliedig ar weledigaeth Yr Athro Donaldson am ddyfodol llwyddiannus i Gymru. Mae'r enwbiadau felly'n syrthio i un o'r categorïau isod:

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Cyfranwyr mentrus, creadigol
- Dinesyddion egwyddorol, gwybodus
- Unigolion iach, hyderus

Agwedd newydd i'r gwasanaeth yw cyflwyno Sgwter y Pennaeth i un disgybl o'r Cyfnod Sylfaen ac un o'r Adran Iau o blith y rhai sydd wedi ennill Clod y Pennaeth yr wythnos. Rydym yn ddiolchgar i fudiad Sustrans am roi'r ddau sgwter i'r ysgol yn gyndabyddaieth o lwyddiant yr ysgol i ennill y Wobr Efydd am Ragoriaeth mewn Teithiau Cynaliadwy i'r ysgol llynedd.

The Head Teacher's Award & The 4 Purposes of the Curriculum

The Head Teacher's Award assembly is now well established as a platform for celebrating success and effort; also as a medium for linking the nominations to the 4 Purposes of the Curriculum which form the back bone of the new Curriculum for Wales, which is based on Professor Donaldson's vision for a successful future. The nominations therefore fall into one of the 4 categories listed below:

- *Ambitious Capable Learners*
- *Enterprising, creative contributors*
- *Ethical, informed citizens*
- *Healthy, confident individuals*

A new aspect of the assembly is the presentation of the Head Teacher's scooter to one pupil from the Foundation Phase and one from the KS2 (Juniors) from among those who have won Clod y Pennaeth for the week. The school is very grateful to Sustrans for donating the two scooters to the school in recognition of the school's success in winning the Bronze Award for Excellence in Sustainable Travel to school last year.



Clod y Pennaeth



Gweithdy Llusernau / Lantern Workshop

Diolch enfawr i'r gwirfoddolwyr ddaeth i'r ysgol i arwain y gweithdai a rhoi cyfle i blant ymarfer eu doniau creadigol.



Ddydd Gwener, 25 Hydref, cafodd holl blant dosbarthiadau Bl 3, 4, 5 & 6 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy llusernau. Cynlluniwyd a chrëwyd llusern odidog ar gyfer yr Orymdaith Lusernau flynyddol a gynhaliwyd nos Sadwrn, 2 Tachwedd. Mae'r ysgol yn falch iawn o gyhoeddi mai llusern y Campws Cynradd enillodd y wobwr am y llusern orau yn y gystadleuaeth rhyng-ysgol. Diolch enfawr i'r gwirfoddolwyr ddaeth i'r ysgol i arwain y gweithdai a rhoi cyfle i blant ymarfer eu doniau creadigol.

On Friday 25th October all Year 3, 4, 5 & 6 classes had the opportunity to take part in a lantern workshop. A magnificent lantern was put together for the annual Lantern Parade held on Saturday 2 November. The school is delighted to announce that the Primary Campus lantern won the prize for best lantern in the inter-school competition. A huge thank you to the volunteers who came to the school to lead the workshops and give children the opportunity to practice their creative talents.

Gala Nofio'r Urdd / Urdd Swimming Gala

Ddydd Mercher, 6 Tachwedd, cynhaliwyd gala nofio'r Rhanbarth. Mae'r ysgol yn falch iawn o'r holl blant fu'n ymarfer ar gyfer cystadlu ac yn arbennig o falch o lwyddiant y canlynol:

On Wednesday 6 November, the Region's swimming gala was held. The school is very proud of all the children who practiced for the competition and particularly proud of the success of the following:

Enw	Safle	Math o Nofio	Oed
Liam Reading	1af	Rhydd	Bl 5 & 6
Josh Fletcher	3ydd	Rhydd	Bl 5 & 6
Ella Bullen	2il	Broga	Bl 5 & 6
Nona Jones	1af	Cefn	Bl 3 & 4
Patrick Searle	2il	Cefn	Bl 5 & 6
Morgan Mason	3ydd	Cefn	Bl 5 & 6
Sanna El-Radhi-Hall	2il	Cefn	Bl 5 & 6
Bechgyn Bl 5 & 6	1af	Cyfnewid Rhydd	



Penwythnos Trosglwyddo - Glan Llyn

41



Disgyblion blwyddyn 6 a 7 yn mwynhau'r penwythnos Glan Llyn y tymor yma. Cyfle gwych i'r disgyblion wneud ffrindiau newydd tu allan i awyrgylch y dosbarth. Bu'r plant yn bowlio deg, adeiladu rafft, canwïo, dringo a llawer mwy.

Year 6 and 7 pupils enjoying the Glanllyn weekend this term. An excellent opportunity to make new friends to help with transition to the secondary school. The children took part in many different activities such as bowling, building a raft, canoeing, climbing and many more.

Byw Drwy'r Blitz – Sioe Mewn Cymeriad

Y tymor hwn, mae dosbarth Helygen a Collen yn dilyn y thema Bydded Goleuni, ac fel rhan o'r thema maent yn astudio bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ddydd Mercher, 11 Medi, cafodd y disgyblion gyfle i wylïo sioe Mewn Cymeriad Byw Drwy'r Blitz a oedd yn fodd i gyfoethogi'u dealltwriaeth o fywyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Daethpwyd ag agweddau o fywyd yn fyw i'r disgyblion wrth iddynt brofi cyrch awyr, dogni bwyd, y blacowt a llawer mwy. Profiad gwerth chweil.

*This term Dosbarth Helygen & Collen's class are following the theme of Light and as part of the theme they are studying life during the Second World War. On Wednesday 11th September the pupils had the opportunity to watch the **In Character – Living Through the Blitz** show which enhanced their understanding of life in Wales during the period. Aspects of life were brought to life for the pupils as they experienced air raids, food rationing, the Blackout and much more. A rewarding experience.*





Diwrnodau Trosglwyddo Ysgol Bro Hyddgen

Mae'r ysgol yn rhoi sawl cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 6 i ymweld â'r campws uwchradd yn ystod y flwyddyn er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer Blwyddyn 7. Yn ystod y flwyddyn, bydd Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Campws Uwchradd 9 gwaith ac yn cael y cyfle i weld amrediad o bynciau, creu ffrindiau newydd, dod i adnabod yr athrawon a'r ysgol.

Y Diwrnod Arferol: 03/10/19

Dyma'r diwrnod trosglwyddo Blwyddyn 6 cyntaf eleni lle mae'r disgyblion yn cael blas ar nifer o bynciau y bydd disgybl Blwyddyn 7 yn ei gael o ddydd i ddydd. Roedd y diwrnod hefyd yn gyfle gwych i ddod i adnabod disgyblion eraill o ysgolion cynradd gwahanol.

Diwrnod Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol—25/11/2019

Un o'r hoff ddiwrnodau trosglwyddo Blwyddyn 6 yw'r diwrnod trosglwyddo Gwyddoniaeth ac Addysg Gorfforol. Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl lle bu Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn arbrefion gwyddonol a datblygu sgiliau ymarfer corff.

Diwrnodau Trosglwyddo i ddod:

- Technoleg a TGCh: 5/2/2020
- Prosiect Rhifedd: 9/6/2020
- Yr Wythnos Drosglwyddo: 29/6/20 – 3/7/20

Transition Days at Ysgol Bro Hyddgen

The school offer many opportunities for Year 6 pupils to visit the Secondary Campus throughout the year to help prepare them for Year 7. The Year 6 pupils will visit the secondary campus 9 times and have the opportunity to see a range of subjects; make new friends; get to know the school and the teachers.

The Normal School Day: 03/10/2019

This was the first Year 6 transition day where pupils had a taste of a range of different subjects Year 7 pupils have on a day to day basis. It was a great opportunity for Year 6 to get to know pupils from different primary schools.

Science and Physical Education Day: 25/11/2019

One of the most popular Year 6 Transition Days is the Science and PE day. It was a fun packed day where the Year 6 pupils carried out science experiments and developed physical skills.

Transition Days to Come:

- Technology and ICT: 5/2/2020
- Numeracy Project: 9/6/2020
- The Transition Week: 29/6/2020 – 3/7/20



Noson Agored Blwyddyn 5 a 6

43

**Braf oedd croesawu
Blwyddyn 5 a 6 i'n Noson
Agored !**

***It was nice to meet Year 5 and
6 during our Open Evening !***



Cynhaliwyd noson agored Blwyddyn 5 a 6 ar y Campws Uwchradd. Roedd y noson yn llwyddiannus dros ben gan ei fod yn gyfle arbennig i rieni a phlant Blwyddyn 5 a 6 ddod i weld yr ysgol, dysgu am lwyddiannau'r ysgol a chael blas ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig. Dyma lun o un o'r gweithgareddau gwyddoniaeth.

Ysgol Bro Hyddgen held their annual Year 5 and 6 Open Evening. It was a very successful evening as it was a great opportunity for Year 5 and 6 pupils and parents to see the school, learn about our successes and have a taste of what the school has to offer. This is a picture of one of the science activities.

Gwaith elusennol / Charity work

Cefnogodd Ysgol Bro Hyddgen ymgyrch godi arian ac ymwybyddiaeth Clwb Rotari Machynlleth wrth anelu i "End Polio Now", sef yr ymgyrch sydd ar waith yn rhyngwladol. Fel rhan o'r gweithgareddau, cafwyd diwrnod lle gwisgwyd dillad porffor a chodwyd swm teilwng iawn o £288.39. Yn ogystal, ymunodd Mr Roger Seagrave a Mr Des Riley o Glwb Rotari'r dre gyda disgyblion yr ysgol mewn gwasanaeth ar y campws uwchradd lle cafwyd cyflwyniad diddorol iawn gan y disgyblion yn amlinellu peryglon polio a'r llwyddiant ysgubol sydd wedi bod ar waith yn fyd-eang yn gwaredu'r haint, a sut bydd wedi diflannu'n llwyr yn fuan iawn os gwnaiff y gwaith gwych hwn barhau. Braf mewn gwirionedd ydy nodi nad oedd llawer iawn o'r disgyblion erioed wedi clywed am polio, sy'n adlewyrchu ei fod bellach yn haint sydd yn ddiflanedig yma yng Nghymru.

Dros y tymor hwn, mae llawer o waith codi arian wedi digwydd yn yr ysgol gyda'r disgyblion yn codi arian i'r elusen Macmillan, Plant mewn Angen ac i'r Ambiwylans Awyr yn ychwanegol i "End Polio Now" - braf yw gweld y disgyblion yn gweithredu fel dinasyddion gofalgaf a chyfrifol. Dylid nodi bod yr ysgol yn falch i allu cydweithio gyda Clwb Rotari Machynlleth, ac edrychwn ymlaen at barhau i wneud hynny'n y dyfodol.

As part of the End Polio Now raising awareness and fundraising event, Ysgol Bro Hyddgen supported Machynlleth Rotary Club's appeal by organising a day where all pupils wore purple clothes and raised £288.39. Members of the Machynlleth Rotary Club attended a whole school assembly and a very enlightening presentation was made by some of the pupils about the dangers of polio and the amazing success that has already happened globally in nearly eradicating this horrible disease, and how it may be completely eradicated globally, if the excellent work already undertaken is allowed to continue.

Many charities are supported by the pupils within the school including fund raising for Macmillan Cancer Support, Children in Need and Air Ambulance Wales this term - it is a pleasure to see the pupils being such caring and responsible citizens. Ysgol Bro Hyddgen is also proud to support the excellent work of Machynlleth Rotary Club, and looks forward to continue to do so in the forthcoming future.



@brohyddgen





Dr Hywel Griffiths yn siarad gyda'r disgyblion TGAU
Dr Hywel Griffiths talking with the GCSE pupils



Miss Husband yn cynorthwyo Liam a Charlie gyda'u gwaith Alldaith Dyniaethau. / *Miss Husband helping Liam and Charlie with their Humanities Expedition work.*

Yr Eidal 2020

Mi fydd 38 o ddisgyblion o flynyddoedd 9, 10 ac 11 yn mynd ar daith i'r Eidal yn mis Gorffennaf. Byddwn yn ymweld â lleoliadau enwog fel Pompeii, Sorrento, Capri ac yn cerdded i gopa llosgfynydd Vesuvius! Gofynnwn i bawb sy'n dod ar y daith sicrhau fod ganddynt basbort cyfredol a'u bob yn dilyn y cynllun talu ar ParentPay.

Croesawu Miss Megan Husband i'r Adran Ddaeryddiaeth

Croesawyd Miss Husband, myfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth, i'r adran Ddaeryddiaeth yn ystod y tymor. Dyma grynodeb o'i phrofiad ym Mro Hyddgen.

"Megan Husband ydw i. Dros y 10 wythnos diwethaf, rydw i wedi cael y fraint o addysgu yn Ysgol Bro Hyddgen fel rhan o'r cwrs TAR i fod yn athrawes Ddaeryddiaeth. Hoffwn ddiolch i'r holl ddisgyblion a staff am y croeso cynnes.

Rwyf wedi cael y cyfle i addysgu dosbarthiadau Ddaeryddiaeth a Chymraeg Ail Iaith yn yr ysgol. Mae'r profiadau hyn wedi fy ngalluogi i rannu fy angerdd am y byd, yn ogystal â fy ngalluogi i fod yn greadigol. Rwyf wedi ehangu fy mhrofiad o addysgu yn ogystal â phrofiadau'r disgyblion. Teimlaf fy mod wedi dod i adnabod y disgyblion yn dda yn ystod fy amser ym Mro Hyddgen, mwynheais addysgu'r gwersi. Credaf ei bod yn deg dweud fy mod wedi dysgu gymaint, os nad mwy na'r disgyblion! Mae fy mhrofiad yma wedi bod yn wych. Roeddwn i'n lwcus i gael mentoriaid arbennig oedd wastad yn barod i helpu mewn unrhyw ffordd.

Mae dysgu ym Mro Hyddgen wedi dangos balchder cymunedol nad ydw i wedi ei brofi o'r blaen. Credaf y bydd hi'n anodd curo brogarwch ac angerdd y disgyblion a'r athrawon am yr ysgol a'r ardal. Byddaf wir yn colli dysgu ym Mro Hyddgen, ac rydw i'n falch o allu dweud mai dyma ble cefais fy mhrofiad dysgu cyntaf."

Italy 2020

38 pupils from years 9, 10 and 11 will be visiting Italy in July. We will be visiting famous locations like Pompeii, Sorrento, Capri and will hike to the summit of the Vesuvius volcano! We ask everyone who is coming on this visit to make sure they have a valid passport and to follow the payment plan on ParentPay.

Welcoming Miss Megan Husband to the Geography Department

We welcomed Miss Husband, a student from Aberystwyth University, to the Geography department this term. Below is a summary of her experience at Bro Hyddgen.

"I'm Megan Husband. For the past 10 weeks I've had the pleasure of teaching at Ysgol Bro Hyddgen as part of the PGCE course to become a Geography teacher. I'd like to thank all the pupils and staff for the warm welcome.

I've had the opportunity to teach Geography and Second Language Welsh classes. These experiences have allowed me to teach and share my passion for the world, as well as allowing me to be creative. I've expanded my experience of teaching as well as the students experience of learning. I feel that during my time here, I have come to know the students well, and have thoroughly enjoyed teaching the lessons. I think it would be fair to say that I've learnt just as much, if not more, than the pupils! My experience here has been great. I was lucky to have amazing mentors who were always happy to help me in any way.

Teaching at Bro Hyddgen has shown me a community spirit I haven't experienced before. I think it will be difficult to top the love and passion the pupils and teachers have for their school and the area. I will truly miss teaching at Bro Hyddgen, and I am proud to say that my first teaching experience was here."



The Geography Department

45

Hoffem ddiolch yn fawr i Miss Husband am ei chyfraniad i'r adran Ddaeryddiaeth a'r ysgol yn ystod y tymor, dymuniadau gorau gyda gweddill y cwrs TAR.

Cyflwyniad gan Dr Hywel Griffiths o Brifysgol Aberystwyth
Croesawodd ddisgyblion TGAU Dr Hywel Griffiths i'r adran Daearyddiaeth ddydd Iau'r 21ain o Dachwedd. Mae Dr Hywel Griffiths yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n arbenigo mewn prosesau afonol a llifogydd. Dyma sylwadau rhai o'r disgyblion yn dilyn ei gyflwyniad.

"Daeth Dr Hywel Griffiths, darlithydd mewn Daearyddiaeth, i siarad â ni am lifogydd. Cyfeiriodd at wahanol lifogydd ledled y byd ac esboniodd sut maen nhw'n digwydd.

Yn ei gyflwyniad, dangosodd luniau diweddar i ni o lifogydd yn Aberystwyth. Mae llawer o ddatblygiad wedi bod ar y gorlifdir yn Aberystwyth. Mae McDonalds, Next, Morrisons a swyddfeydd Llywodraeth Cymru i gyd wedi'u hadeiladu ar orlifdir sy'n debygol o ddioddef digwyddiad llifogydd o leiaf unwaith mewn cant o flynyddoedd!

Hefyd dangosodd lun o glogfeini mawr a oedd wedi cael eu symud yn dilyn methiant argae ym 1925 yn Nolgarrog ger Llanrwst. Rhuthrodd 70 biliwn galwyn o ddŵr a malurion lawr i Ddyffryn Conwy gan ladd deg oedolyn a chwech o blant.

Roedd y cyflwyniad yn hwyl ac yn ddiddorol. Fe wnes i fwynhau dysgu am y llifogydd a pham maen nhw'n digwydd a sut mae pobl yn ymateb."

Gan Owain Foster

"Cawsom y pleser o groesawu Dr Hywel Griffiths i'r ysgol er mwyn dysgu am beth ydi llifogydd a sut a pham eu bod yn digwydd. Yn ystod y cyflwyniad cefais sioc wrth glywed rhai o'r ffeithiau a gyflwynodd, er enghraifft, bod llifogydd wedi lleihau mewn maint dros y 250 mlynedd diwethaf ym Mhrydain. Fe sbardunodd hynny i mi feddwl am ba mor fawr fyddai llifogydd y gorffennol wedi bod. Hefyd, roedd yn ddiddorol dysgu am wahanol achosion llifogydd rhai naturiol fel glawiad dwys, stormydd ac eira'n toddi a rhai dynol fel argaeau yn methu.

Gwnaeth y cyflwyniad argraff arnaf ac mae wedi fy annog i ystyried effaith y llifogydd sy'n digwydd o'n cwmpas ar ein cymdeithas fel llifogydd Aberystwyth a Thalybont yn 2013 ac yn fwy diweddar llifogydd Gwlad yr Haf yn 2013/14 ac yn Doncaster eleni."

Gan Hanna Penrhyn Jones

We would like to thank Miss Husband for her contribution to the Geography department and to the school this term and wish her well with the rest of the PGCE course.

A presentation by Dr Hywel Griffiths from Aberystwyth University
GCSE pupils welcomed Dr Hywel Griffiths to the Geography department on Thursday 21st November. Dr Hywel Griffiths is a lecturer at Aberystwyth University who specializes in fluvial processes and floods. Here are some of the pupils' comments following his presentation.

"Dr Hywel Griffiths a Geography lecturer came to talk to us about floods. He referred to different floods around the world and explained how they happen.

In his presentation, he showed us recent photos of flooding in Aberystwyth. There has been a lot of development on the floodplain in Aberystwyth. McDonalds, Next, Morrisons and the Welsh Government offices have all been built on a floodplain that is likely to suffer a one in a hundred year flood event!

He also showed us a picture of large boulders that had been moved by a dam collapse in 1925 at Dolgarrog near Llanrwst. 70 billion gallons of water and debris rushed down into the Conwy Valley killing ten adults and six children.

The presentation was fun and interesting. I enjoyed learning about the floods and why they happen and how people respond."

By Owain Foster

"We had the pleasure of welcoming Dr Hywel Griffiths to the school to learn about what floods are and how and why they happen. During the presentation, I was shocked to hear some of the facts he presented, for example, that floods has reduced in size over the last 250 years in Britain. That prompted me to think about how big the floods of the past would have been. Also, it was interesting to learn about the different causes of floods, some natural causes such as intense rainfall, storms and snowmelt and human causes such as dam failures.

I was impressed by the presentation; it has encouraged me to consider the impact that floods have on our society such as the Aberystwyth and Talybont floods in 2013 and more recently the Somerset floods in 2013/14 and the flooding in Doncaster this year."

By Hanna Penrhyn Jones



@brohyddgen



46 Blwyddyn 7 yn ymgartrefu

Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn ymgartrefu!



Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn ymgartrefu i mewn i'r ysgol Uwchradd ac yn mwynhau pob math o weithgareddau o fewn gwersi a thu allan. Yn ddiweddar, mae'r flwyddyn wedi bod yn dysgu cydweithio drwy weithgareddau datrys problemau.

"Heddiw yn ein gwersi technoleg redded ni wedi gwneud gweithgareddau tîm. Yn y weithgaredd gyntaf wnaethom, roedd rhaid i ni drefnu ein hunain mewn llinell o'r talaf i'r byraf, heb siarad. Roedd hyn yn sialens heb siarad, ond roedd modd cyfathrebu mewn ffyrdd eraill. Yna chwaraeon ni glymau, gêm lle'r oedd pawb ond un person, angen mynd mewn cylch a dal dwylo a chlymu'r cylch i fyny. Roedd y gemau yma yn hwyl ac yn ein gorfodi ni i weithio fel tîm, gwrando ar eraill wrth ddo i adnabod disgyblion." - Charlotte Cook Blwyddyn 7

"Yn fy marn i, mae'r ysgol Uwchradd yn wych! Dw i'n mwynhau chwaraeon, mathemateg a thechnoleg. Ar y diwrnod cyntaf roeddwn yn nerfys, and hefyd roeddwn i'n gyffrous, ond roedd e'n hwyl hefyd. Rwyf wedi gwneud lot o ffrindiau, dwi'n gobeithio y bydd pawb arall sy'n dod i'r Ysgol yn cael amser da hefyd." - Rhys Evans Blwyddyn 7

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn hwyl a sbri! Gwnaethom waith ar adeiladu tîm yn un o wersi cyntaf Technoleg I baratoi at waith sydd angen i ni weithio yn dda efo ein gilydd. Fy hoff weithgaredd oedd pan oedden ni wedi clymu yn un cwlwm enfawr ac yn gorfod datod heb siarad! Mae gweithgareddau gan yr athrawon yn yr Ysgol yma yn rhoi sgiliau i ni ddefnyddio yn y dyfodol, megis datrys problemau, gweithio gydag eraill a chyfathrebu.

Mae Clwb gwaith cartref i unrhyw un sydd ddim yn gallu gwneud gwaith cartref adref. Mae'r athrawon yn barod iawn i'n helpu ni gyda gwaith, ac yn gwrando os oes unrhyw beth yn bod. Mae yna lawer o gyfleoedd i'w gael yn Ysgol Bro Hyddgen e.e. Clwb Pêl Rhwyd ar ôl ysgol, triapiau anhygoel - mae trip Sgïo ar y gorwel, gweithgareddau creadigol. Rwyf wrth fy modd." - Ela Thomas Blwyddyn 7.

Year 7 has been busy settling into the secondary school and enjoying all sorts of activities both in and out of lessons. Recently the year has been learning to work together through problem solving activities.

"Today in our technology lessons we did team activities. In the first activity we did, we had to organize ourselves in a line from tallest to shortest, without speaking. This was a challenge without talking, but it was possible to communicate in other ways. Then we played knots, a game where everyone except one person, needed to go in a circle and hold hands and tie the ring up. These games were fun and made us work as a team, listening to others while getting to know pupils." - Charlotte Cook Year 7

In my opinion, high school is great! I enjoy sport, maths and technology. On the first day I was nervous, and also excited, but it was fun too. I've made lots of friends, I hope everyone else who comes to the School has a good time too. Year 7 Rhys Evans

The past few weeks have been great fun! We worked on team building in one of Technology's first lessons to prepare for work that we need to work well together. My favorite activity was when we were tied into one huge knot and had to undo without talking! Activities by the teachers in this School give us skills to use in the future, such as problem solving, working with others and communication.

There is a Homework Club for anyone who cannot do homework at home. Teachers are very happy to help us with work, and listen if anything is wrong. There are many opportunities available at Ysgol Bro Hyddgen eg After school Netball Club, amazing trips - Ski trip is on the horizon, creative activities. I love it." - Ela Thomas Year 7.



Myfyrwyr y Chweched yn ymwled â Phrifysgol Aberystwyth



Trefnodd Mrs Evans daith i'r criw Gwyddoniaeth Feddygol i'r Brifysgol yn Aberystwyth ac yn benodol i'r adran Chwaraeon. Dysgom am y stafell fach, lle'r oeddech yn gallu gwneud gwahanol weithgareddau ymarfer corff dan amodau gwahanol. Roedd y tymheredd yn gallu mynd fyny i 40°C neu lawr i -5 °C a gweld effeithiau hyn ar y corff.

Aethom ymlaen i siarad am osteoporosis ac ar bwy y mae'n gallu effeithio fwyaf.

Mi aethom i stafell arall lle'r oedd treadmill a beic. Gwirfoddolodd Aron i fynd ar y beic am tua 10 munud, tra bod ei anadlu a'i galon yn cael eu monitro. Gwelom eu systemau yn newid o weithio'n aerobig i anaerobig.

Cymharwyd canlyniadau Aron gyda rhai Alun o'r Brifysgol. Roedd canlyniadau Alun ac Aron yn wahanol iawn ac roedd o'n ddi-ddorol i weld y gwahaniaethau.

Yn gyffredinol, roedd y diwrnod yn gynhyrchiol iawn a dysgwyd llawer.

Mrs Evans arranged a trip for the medical science crew to go to the university in Aberystwyth to visit the sport's department. We started off learning about a little room, where you could do different physical activities under different conditions. The temperature could be varied between 40oC to -5oC to see the effects this has on the body. We then went on to learn about osteoporosis and who it can affect the most.

We went to another room, where there was a very large treadmill and a bike. Aron volunteered to go on the bike and he lasted for about 10 minutes, while his breathing and heart were monitored. We could see his systems switching between working aerobically to anaerobically.

We also looked at Alun, from the University results from the bike test that Aron did and compared them to Aron's results. It was very interesting to see the difference in Alun and Aron's results.

Overall, a very productive day was had and a lot was learnt.

Oes Fictoria

Dros yr wythnosau diwethaf, mae dosbarth Onnen wedi bod yn dysgu am Oes Fictoria, yn enwedig am y nyrs Gymreig, Betsi Cadwaladr ac ysbytai Fictorianaid. Fel rhan o'r gwaith, ddydd Iau, 5ed o Ragfyr, gwnaethom ymweld ag Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth. Teithiom ar y tren o Fachynlleth i Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Drafnidiaeth Cymru am ddarparu cludiant am ddim i ni. Roedd hyn yn antur fawr ac roedd pawb yn gyffrous ofnadwy. Ar ôl cyrraedd Aberystwyth, cerddon lawr y stryd i'r amgueddfa. Gwnaethom archwilio'r tri llawr a gwelom nifer o arteffactau o wahanol gyfnodau mewn hanes. Y rhan mwyaf poblogaidd oedd yr hen degannau a gwnaeth nifer o'r plant fwynhau perfformio ar stondin Punch a Judy. Daeth yr ymweliad yma ag Oes Fictoria yn fyw i'r plant ac rwy'n siwr y bydd y profiad yn aros gyda hwy am amser hir i ddod.

Over the last few weeks Onnen class have been learning about Victorian times, Victorian hospitals and in particular the Welsh nurse Betsi Cadwaladr. As part of our work, on Thursday 5th December, we visited Ceredigion Museum, Aberystwyth. We travelled by train from Machynlleth to Aberystwyth. We are very grateful to Transport for Wales for providing free transport. This was a great adventure and everyone was very excited. Upon arriving Aberystwyth, we walked along the high street to the museum. We explored all three floors and saw many various artefacts from different times in history. The favourite exhibit was the old toys exhibit and many of the children enjoyed performing at the Punch and Judy stand. This visit brought the Victorian Times alive for the children and I'm sure it is an experience that they will remember for a long time.



48 Cwricwlwm i Gymru

Beth yw Cwricwlwm i Gymru?

What is the Curriculum for Wales?



Beth yw Cwricwlwm i Gymru?

Mae cyfnod cyffrous yn llawn newidiadau o fewn addysg ar y gorwel yng Nghymru gyda cyflwyno Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr 3-16 oed ym Medi 2022. Rydym yn byw mewn cyfnod lle mae newidiadau mawr ar waith mewn cymdeithas, o fewn gweithleoedd, ac mae technoleg yn datblygu ar raddfa cynyddol cynt nac erioed o'r blaen; o ganlyniad mae angen i bobl ifanc fod yn meddu ar sgiliau i addasu wrth ymdrin â'r newidiadau hyn.

Beth yw dibenion y cwricwlwm newydd?

Adnabyddwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru bod dibenion clir i'r cwricwlwm, a bod ysgolion o Fedi 2022 yn mynd i fod yn ffocysu ar rhain. Mae'r dibenion hyn yn ffocysu ar arwain a datblygu plant a phobl ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodys sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd;
- yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

What is the Curriculum for Wales?

An exciting period of change in education is on the horizon with the introduction of a Curriculum for Wales for 3-16 year olds in September 2022. We are living in a time of great changes in society, in workplaces, and technology is developing at an ever faster rate than ever before. As a result, young people need to have the skills to adapt and to deal with these changes.

What are the purposes of the new curriculum?

It has already been recognized by Welsh Government there are clear curriculum purposes, and schools from September 2022 will be focusing on these. These purposes focus on leading and developing children and young people to be:

- *ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives*
- *enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work*
- *ethical, informed citizens of Wales and the world*
- *healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*



Curriculum for Wales

49

Bydd y cwricwlwm newydd yn cynnwys...

Ffocws ar draws y cwricwlwm newydd ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, ac ar ddatblygu cymhwysedd digidol y dysgwyr. Bydd rhain yn cael eu datblygu o fewn y meysydd dysgu a phrofiad sef:

- Iaith, Cyfathrebu a Llythrennedd
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Iechyd a Lles
- Celfyddydau Mynegiannol
- Dyniaethau
- Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Bro Hyddgen

Ar hyn o bryd, mae gwaith arloesol yn digwydd yn Ysgol Bro Hyddgen lle mae dysgwyr yn cael cyfle i gydweithio gydag arbenigwyr a chael profiadau cyffrous i drefnu gweithgareddau i bwrpasau real. Dros y misoedd diwethaf, mae disgyblion ar draws y ddau gampws wedi cydweithio gydag arbenigwyr megis yr RNLI, cogyddion o fwyty seren Michelin Ynyshir, Prifysgol Aberystwyth, Mike Parker yr awdur lleol a Mrs Kathleen Rogers y cyn offeiriad, a cherddorion proffesiynol gan gynnwys Candelas i enwi ond rhai. Yn gyffrous iawn, mae'r dysgwyr wedyn wedi cwblhau tasgau i bwrpasau real ac mae hyn wedi bod yn allweddol yn gosod her ac yn eu cymell i lwyddo – gwelwyd y dysgwyr yn cwblhau heriau i safon uchel iawn e.e. trefnu twrnament pêl-droed, creu te prynhawn i athrawon a gwahoddedigion eraill, a chyfansoddi a pherfformio caneuon i'w recordio. Er mai dyddiau cynnar ydy hwn i ni fel ysgol o ran paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, mae'r gwaith sydd yn digwydd yma'n gyffrous ac rydym yn ymfalchio'n ymdrechion ein dysgwyr a'n staff wrth fynd ati i wynebu'r her sydd yn ein wynebu; eisoes, mae'r dysgwyr yn ymateb gyda brwdfrydedd a chyffro, ac maent yn amlwg yn falch iawn o'r profiadau a gynigir iddynt.

The new curriculum will focus on...

There will be a focus in the new curriculum on developing the literacy, numeracy and digital competency skills of the learners. These will be developed within the areas of learning and experience which will be:

- *Languages, literacy and communication*
- *Mathematics and numeracy*
- *Science and technology*
- *Health and well-being*
- *Expressive arts*
- *Humanities*
- *Curriculum for Wales in Ysgol Bro Hyddgen*

Currently, innovative work is taking place at Ysgol Bro Hyddgen where learners have the opportunity to collaborate with experts and gain exciting experiences to organize activities for real purposes. Over the past few months, pupils across both campuses have worked with experts eg the RNLI, a chef from Ynyshir, the Michelin-starred restaurant, Aberystwyth University, Mike Parker the local author and Mrs Kathleen Rogers the former priest, and professional musicians including Candelas to name but a few. These experiences and the guidance offered by the experts have led to learners completing tasks for real-life purposes and this has been instrumental in challenging and motivating them to succeed. Learners have completed the challenges set to a very high standard, for example organizing a football tournament, creating afternoon tea for teachers and other invited guests, and composing and performing songs for recording. Although these are early days for us as a school in preparing for the new curriculum, the work taking place at Ysgol Bro Hyddgen is exciting and we are proud of the efforts of our learners and staff in tackling the challenge we face; learners are already responding with enthusiasm and excitement, and are obviously benefitting from the experiences offered to them.



50 Newyddion / News

**Noson Agored Y Chweched Dosbarth
Sixth Form Open Evening**

Nos Lun, 27ain Ionawr 6yh
Monday, January 27th 6pm

Cewch gyfle i gwrrd â'r athrawon ac i glywed am:

- Ddarpariaeth Ôl 16 yr ysgol
- Cyfleoedd Gwaith & Hyfforddiant
- Llywybrau Astudio Posibl
- Sgiliau a Chymysgterau

You will have the opportunity to meet the staff and hear about:

- The school's Post 16 Provision
- Work & Training Opportunities
- Possible Route Options
- Skills and Qualifications

Os na allwch chi fynychu'r noson, cyswlltwsch â'r ysgol ar 01654 704200 am ragor o wybodaeth ac i dderbyn copi o'r prospectws neu ewch i www.brohyddgen.cymru

If you're unable to attend the evening, please phone the school on 01654 704200 to receive a copy of the prospectus or visit www.brohyddgen.cymru

Are you being bullied?
Email: bullying@brohyddgen.powys.sch.uk

Ydych chi yn cael eich bwlio?
E-bostiwch: bwlio@brohyddgen.powys.sch.uk

Prif-ddisgyblion yn cynnal gwrs etholiadol

Fel rwy'n siwr mae'r rhan fwyaf ohonoch yn ymwybodol, bu Etholiad Cyffredinol yn y DU ar y 12fed o Ragfyr. Wrth drafod hyn gyda chyd-ddisgyblion, daeth i'r amlwg nad oedd sawl un yn deall llawer am gyfundrefn wleidyddiaeth y Deyrnas Unedig nac am sut mae'r wlad yn cael ei rhedeg. Penderfynom fel prif ddisgyblion y gallem ni yn yr ysgol gyfrannu i wella'r sefyllfa, ac aethum ati i baratoi cyflwyniad i'r campws uwchradd.

Mewn cyfarfod ysgol gyfan, soniom am bethau fel pleidiau, etholaethau, rol Aelodau Seneddol, hanes hawliau pleidleisio yn y DU, gwahanol systemau democrataidd (ac annemocrataidd) ar draws y byd, a'r ffyrdd gorau i addysgu'ch hunain (gan gynnwys darllen manifestos, edrych ar hanes pleidleisio AS, deall tuedd wrth ddilyn y newyddion, a mynychu hystings).

Er na fydd rhan fwyaf o'r disgyblion yn yr ysgol yn ddigon hen i bleidleisio yn yr etholiad a gafwyd, credaf ei bod yn bwysig bod pob person ifanc yn deall beth sy'n digwydd yn wleidyddol gan mai ni yw'r rhai sy'n mynd i orfod byw hiraf gydag effeithiau ymddygiad unrhyw lywodraeth. Yn ogystal, gan i'r Senedd bleidleisio i roi'r bleidlais i bobl 16 ac 17 mlwydd oed yn etholiadau Llywodraeth Cymru yn 2021, bydd llawer o ddisgyblion yr ysgol gyda llais gwleidyddol yn fwy buan nag efallai oedden nhw'n ei ddisgwyl, ac mae hi'n hanfodol eu bod nhw'n gwybod sut i ddefnyddio'r llais hwnnw yn wybodus.

Cerys Hickman (Prif ddisgybl)

As I'm sure most of you are aware, a General Election took place in the UK on the 12th of December. When discussing this with classmates, it became clear that many did not understand much about the UK political system or how the country is run. We decided as head-pupils that we could contribute to improving the situation, and I prepared a presentation to the secondary campus.

In the whole school session, we talked about things like parties, constituencies, the role of MPs, the history of voting rights in the UK, different democratic (and undemocratic) systems around the world, and the best ways to educate yourself (including reading manifestos, look at MP voting history, understanding bias while following the news, and how we should attend hustings).

Although most pupils at the school were not old enough to vote in the election, I think it is important that all young people understand what is happening politically as we are the ones which are going to have to live the longest with the effects of forthcoming governments work. In addition, as the Senedd has voted to give 16 and 17 year olds the vote in the Welsh Government elections in 2021 last month, many pupils at the school will have a political voice sooner than they might have expected, and it is essential that they know how to use that voice knowledgeably.

Cerys Hickman (head pupil)



Elusen "Little Princess"

51



Mae Karlee Braddock wedi torri 9 modfedd o'i gwallt i ffwrdd a rhoi i'r elusen 'Little Princess'. Mae 'Little Princess' yn darparu wigiau gwallt go iawn am ddim i blant a phobl ifanc hyd at 24 oed, sydd wedi colli eu gwallt eu hunain oherwydd triniaeth canser a chyflyrau eraill. Mae'r lluniau 'before and after' yn dangos maint ei champ!

Karlee Braddock has cut 9 inches of hair off and donated to the charity 'Little Princess'. 'Little Princess' provides free real hair wigs for children and young people up to the age of 24, who have lost their own hair due to cancer treatment and other conditions. The 'before and after' photos are attached.

Chwaraeon Powys

Am y pythefnos diwethaf, mae Chwaraeon Powys wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chartref Gofal Cartref Dyfi, Machynlleth i ddarparu gweithgareddau i wella iechyd a lles preswylwyr. Cynhaliwyd y sesiynau gan y Llysgenhadon Ifanc o Ysgol Bro Hyddgen ac fel y gallwch weld daethant â mwynhad a hwyl i'w diwrnod.

For the past two weeks, Sport Powys have been working in partnership with Cartref Dyfi Care Home, Machynlleth to provide activities to enhance the residents health and well-being. The sessions were run by the Young Ambassadors from Ysgol Bro Hyddgen and as you can see they brought enjoyment and fun to their day.



@brohyddgen



52 Potsh Bro Hyddgen



Llongyfarchiadau Megan a Melina am ennill Potsh Bro Hyddgen!! Anlwcus Manon a Lucy.

Congratulations Megan and Melina for winning Potsh Bro Hyddgen!! Unlucky Manon and Lucy.



Cyn yr haf, bu S4C yma i ffilmio rhaglen newydd o'r enw Potsh. Dewiswyd Bro Hyddgen fel un o'r ysgolion ar gyfer y rhaglen. Rhaglen goginio yw Potsh lle'r oedd gan y cogyddion restr o gynhwysion i goginio pryd o fwyd, os roedd y cogyddion yn ateb cyfres o gwestiynau'n gywir maen nhw'n datgelu rhan o'r rysâit, os roedd yr ateb yn anghywir roedd darn o'r rysâit ar goll ac felly roedd rhaid dyfalu beth i'w wneud nesaf. Mi wnaeth Melina, Lucy, Megan a Manon gymryd rhan yn y gystadleuaeth fel cogyddion a Deio, Garmon a Mabon fel beirniaid.

Before the summer holidays S4C visited the school with their new programme called Potsh. Bro Hyddgen was one of the schools chosen for the programme. Potsh is a cooking programme where the chefs had a list of ingredients to cook a meal, if the chefs answered a series of questions correctly they were shown a part of the recipe, if they got the answer wrong a piece of the recipe was missing and they had to guess what to do next. Melina, Lucy, Megan and Manon took part in the competition as the chefs and Deio, Garmon and Mabon as the judges.



Science Club!
Clwb Gwyddoniaeth!



1.10 pm pob Dydd Iau yn y labordy Cemeg
1.10 pm every Thursday in the Chemistry lab



Euros Evans

53

Massive congratulations to Euros Evans in Y13 for his exceptional running performances this term.

Euros chose to enter his first half marathon in the very popular Cardiff event this year taking place on October the 6th. It is not possible to enter a half marathon before turning 17, so Euros was actually one of the youngest participant. He completed the 21km (13miles) in 1 hour 25min and 11 seconds. A truly outstanding result!

The event was established in 2003, now the race has grown to accommodate up to 25,000 runners!

The course has always been predominantly flat, making it ideal for first time runners and professionals alike. The next race will take place on 4th October 2020, with over 7500 places being taken within 24 hours of entries opening!

But Euros didn't stop there, he also ran the Aber Town 5K presented by The Aber Harriers in partnership with Mind Aberystwyth. The race took place on November the 2nd and Euros finished 2nd overall !

Last but not least Euros ran in the Aberystwyth Charity 10k race Sunday 8th December. He finished in an amazing 36min33seconds 3rd of the U20! Once more asserting himself as a true athlete running with much gusto.

The Aberystwyth Charity 10k is a fast, flat race following roads and paths around the town that takes runners along the promenade, through the harbour, and around the Rheidol river's edge to finish back at the race registration. All proceeds of the race go to charity raising around £6,000 a year for local charities, with significantly larger amounts being raised by runners collecting sponsorship for their own charities.



Llongyfarchiadau enfawr i Euros Evans yn B13 am ei berfformiadau rhedeg eithriadol y tymor hwn.



Taith Alaw gyda'r Urdd i Batagonia / Alaw's trip to Patagonia with the Urdd



O'r 23ain o Hydref i'r 7ed o Dachwedd, es i'r Arianin i dalaith Chubut, Patagonia ar daith anturus gyda 27 person arall o bob cornel o Gymru. Roedd y daith yn hynod o werthfawr i mi ac roedd yn wefreiddiol i gwrdd â phlant ynghyd ag oedolion a oedd siarad y Gymraeg ar ochr arall y byd, dros 7 mil o filltiroedd i ffwrdd! Gwnaethom bopeth o ganu, dawnsio, teithio ac hyd yn oed rafftio dŵr gwyn! Roedd hi'n brofiad anhygoel a gobeithio mi fyddaf yn mynd yn ôl yn y dyfodol.

Byswn yn hoffi diolch o galon i bawb oedd wedi fy helpu i godi arian ar gyfer y daith ac rwy'n hynod o ddiolchgar am eich cefnogaeth. Felly, os ydych eisiau mwy o wybodaeth neu luniau, gallwch gysylltu â mi drwy'r e-bost: 13galaw@brohyddgen.powys.sch.uk

Dyma ychydig o luniau o'r daith:

From the 23rd of October to the 7th of the November, I had an adventure of a lifetime as I went with 27 others from all over Wales to the province of Chubut which is located in Patagonia, Argentina. The trip was extremely valuable to me and it was incredible to meet children as well as adults that spoke Welsh over 7,000 miles away! We did everything from singing, dancing, travelling and even white-water rafting! An incredible experience that I will hopefully venture again in the future.

I would like to thank everyone who helped me raise money for the trip and I am very grateful for your support. Therefore, if you would like further information or pictures, you can contact me by e-mail:

13galaw@brohyddgen.powys.sch.uk

Here are some pictures from the trip:



Taith yr Urdd i Batagonia 2019



Yr Adran Addysg Gorfforol - The PE Department

56



Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cynrychioli'r ysgol mewn amryw o gystadlaethau y tymor hwn. Tymor llwyddiannus i'r Adran Addysg Gorfforol! Cyrhaeddodd bechgyn dan 13 ffeinal pêl-droed Powys yng Nghwpan Cymru ac maen nhw hefyd wedi ennill nifer o gemau cyfeillgar yn erbyn gwahanol ysgolion. Rhaid hefyd canmol bechgyn blwyddyn 9 wnaeth ddod yn ail yng nghystadlueaeth pêl-droed 8 bob ochr ym Mharc Latham, Drenwydd.

Mae'r merched blynyddoedd 7-11 wedi bod yn brysur hefyd yn cymryd rhan yng ngemau cyfeillgar a chystadleuol pêl-droed a phêl-rwyd. Ymlaen at dwrnament pêl-rwyd ar ôl y Nadolig!

Chwaraeodd tim pêl-droed bechgyn blwyddyn 12 ac 13 yn ei gêm gyntaf y tymor hwn yn erbyn Llanfyllin – ymlaen at gêm gyfeillgar arall ar ôl y Nadolig gobeithio! Mae merched blwyddyn 13 wedi bod yn cynrychioli'r ysgol yng Nghyngraigir Pêl-Rwyd Machynlleth ar nosweithiau lau. Mae'r merched wedi chwarae pêl-rwyd o safon ac yn ymgymryd â her y gyngraigir yn gadarnhaol.

Rydym hefyd wedi cael llwyddiant mewn campau unigol hefyd – da iawn i'r criw badminton yn enwedig merched blwyddyn 9 a ddaeth yn ail yn y gystadlueaeth. Llongyfarchiadau i griw Gala Nofio yng Nghystadlueaeth Gala Nofio Powys.

Dw i'n siwr y gwelwn fwy o lwyddiant yn Nhymor y Gwanwyn!

Congratulations to all who represented the school in a busy and successful term for the Physical Education department.

U13 boys reached the Powys Football Final and have had many successful friendly and competitive rugby games. A huge congratulations to Year 9 boys who came 2nd in the 8 a side football tournament at Latham Park, Newtown.

Girls Years 7-11 have been busy as well representing the school in friendlies and competitive football and netball games playing to the best of their ability and showing great team work.

Years 12 and 13 boys played their first match of the term against Llanfyllin – hopefully with more games after Christmas! Year 13 girls are participating in the Machynlleth Netball League. So far, they have performed some great netball and responding positive to the challenge of the competition.

We've had success in our individual sports – very well done to the badminton team especially year 9 girls who came 2nd in the tournament. Congratulations as well to those who represented Ysgol Bro Hyddgen in the Powys Swimming Gala.

I'm sure we'll see more success in the Spring Term!





58 Cymraeg Campus



This term we have selected a new Criw Cymraeg – Nancy, Evan, Zane, Olly Rowan and Ella



Y tymor hwn rydym wedi dewis Criw Cymraeg newydd - Nancy, Evan, Zane, Olly Rowan ac Ella.

Yn ddiweddar cynhaliom Prynawn Cymraeg lwyddiannus fe wnaethon ni bobî Cacennau Cymreig ac yna eu bwyta wrth wylîo'r fflim **Y Rablyfr Coll**. Roedd y cacennau yn flasus a'r fflim yn hwyl.

Rydym hefyd wedi cael grant i'w wario ar adnoddau Cymraeg ar gyfer yr ardal y tu allan er mwyn annog mwy o blant i siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Fe wnaethon ni wario'r arian ar gemau a byrddau gwybodaeth. Rydym yn edrych ymlaen at dywydd gwell fel y gallwn wneud defnydd llawn ohonynt.

Nadolig Llawen gan y Criw Cymraeg

This term we have selected a new Criw Cymraeg – Nancy, Evan, Zane, Olly Rowan and Ella.

*We recently held a successful Prynawn Cymraeg during which we baked Welsh Cakes and then ate them whilst watching the film **Y Rablyfr Coll**. The cakes were tasty and the film was fun.*

We have also had a grant to spend on Welsh resources for the outside area- this is to encourage more children to speak Welsh outside the classroom. We spent the money on games and information boards. We look forward to better weather so we can make full use of them.

Nadolig Llawen gan y Criw Cymraeg



Trip amaeth i fferm Tŷ Nant

59



Ar fore dydd Mercher, 4ydd Rhagfyr, bu dosbarth blwyddyn 9 a 10 amaeth i ymweld â dofednod Cwm Tŷ Nant. Dysgwyd am y bridiau gwahanol o dwrcis, Grademaker a Plumpy Plus a'r hyn sydd angen arnynt i dyfu'n iach a chyrraedd ein byrddau 'Dolig.

Roedd hefyd ieir, gwyddau a hwyaid di-ri yna. Pob un yn cael eu tewhau'n barod at gyfnod y Nadolig.

Cafwyd hefyd olwg ar y cyfleusterau lladd a phlao a chael syniad o'r anghenion hylendid.

On Wednesday 4th December the year 9 and 10 agriculture class visited Cwm Tŷ Nant poultry farm.

We learnt about the different breeds of turkeys, Grademaker and Plumpy Plus and all that they need to grow healthily and reach our Christmas tables.

There were also many chickens, geese and ducks there. All being fattened and prepared for the Christmas period.

We also saw the killing and plucking facilities and had an insight into the strict hygiene requirements.

Plant mewn Angen

Ar yr 15fed o Dachwedd, roedd hi yn ddiwrnod Plant mewn Angen y BBC. Pob blwyddyn mae'r ysgol yn cynnal digwyddiad i godi arian tuag at yr achos. Oherwydd y cynnydd mewn poblogaeth ar y teledu hefo Jeremy Clarkson yn cyflwyno, roedden ni wedi dewis gwneud digwyddiad 'Who wants to be a millionaire?'. Reddem angen Jeremy Clarkson i'n gêm ni. Ac ar ôl ystyriaeth agos, dewisais Mr Dafydd Ellis. Wedyn, roedd angen cystadleuwyr. Roeddwn i wedi dewis bod angen cystadlaeuaeth 6ed dosbarth yn erbyn yr athrawon. Felly fe ddewiswn ni Mr Biffin a Mrs Evans o'r adran Wyddoniaeth, ac o'r chweched dosbarth, Swyn Hughes ac Alex Monnox. Ac ar ôl dewis y cystadleuwyr, roedd y diwrnod Plant mewn Angen wedi cyrraedd. Ar ddiwrnod y gystadlaeath cyrradeddodd Swyn Hughes a Mrs Lowri Evans £250,000, ond Mr Biffin ac Alex Monnox enillodd £1,000,000 (neu bar o siocled galaxy bar!). Roedd y diwrnod yn un llwyddiannus iawn gyda dros £500 wedi'i gasglu dros y ddau gampws! Diolch i bawb oedd wedi helpu ar y diwrnod!

Ieuan Jones, Blwyddyn 12



@brohyddgen



Celf a Thecstiliau



Mae Grwpiau TGAU a Lefel A wedi cael tymor prysur iawn yn yr adran Gelf a Thecstiliau rhwng Gweithdai gydag artistiaid a phrofiadau newydd ymysg ymweliadau i orielau ac amgueddfeydd cyfagos. Cafodd Mia Banks, Blwyddyn 13, hefyd gyfle i gymryd rhan yn y gweithdy 'darlunio modelau mewn gwisg arbennig' gyda Ruth Koffe yn amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth, ym mis Hydref. Ymweliad difyr arall a gafwyd ym mis Medi oedd ag arddangosfa 'Edeifion Indiaidd' yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, ble'r oedd gwaith anhygoel i'w weld, a chyfuniad o ddiwylliant Indiaidd yng ngwaith artistiaid Cymraeg, fel Eleri Mills, Julia Griffiths Jones, Laura Thomas a Louise Tucker. Bu artistiaid o Gymru a chrefftwyr o Kachchh yn y Gujarat wledig yn rhannu amser stiwdio a theithiau maes, traddodiadau cymuned a phrofiadau personol gyda'r myfyrwyr; gwaith diddorol iawn sy'n plethu i mewn i waith y disgyblion wrth ddangos cyfoeth o brofiadau yn eu gwaith. Helen Pugh o Dywyn a fu'n ymweld â'r disgyblion ddydd Iau, 10 o Hydref, gan ddangos ei gwaith pwytho ar ôl i'r disgyblion ddangos diddordeb mawr yn ei gwaith yn dilyn cystadleuaeth yn y Tabernacl y tymor diwethaf.

GCSE and Level Groups are starting a very busy season in the Art and Textiles section between workshops with new artists and experiences among visits to nearby galleries and museums. Next month's experiences include a workshop in Tabernacl - Look at slate in a fresh light - Construct, compose and configure landscapes in slate. Ben sculptures by Ben Jones. Year 13 Mia Banks also had the opportunity to take part in a 'custom-made model drawing' workshop with Ruth Koffe at the Ceredigion museum Aberystwyth 4/10/19. An interesting visit was on 26.9.19 which was to visit the 'Indian Thread' exhibition at Aberystwyth Arts Center, where there was amazing work to see, and a blend of Indian culture into the work of Welsh artists, such as Eleri Mills, Julia Griffiths Jones, Laura Thomas and Louise Tucker. Welsh artists and craftsmen from Kachchh in rural Gujarat shared studio time and field trips, community traditions and personal experiences. A very interesting work that interweaves pupils' work while showing the richness of experiences in their work. Helen Pugh from Tywyn visited pupils on Thursday 10 October showing her stitching after pupils showed great interest in her work following a competition in Tabernacle last term.



Alldaith Dosbarth Helygen: Cofio

61

Braf iawn oedd medru rhannu yr hyn maent wedi ei ddysgu gyda gweddill y disgyblion ar y Campws Cynradd.



Y tymor hwn, mae dosbarth Helygen wedi bod yn astudio cyfnod yr Ail Ryfel Byd. Mae disgyblion dosbarth Helygen wedi dangos llawer o frwdfrydedd wrth ddysgu am fywyd yn ystod y cyfnod.

Ddydd Llun, 11 Tachwedd, cynhaliwyd gwasanaeth ar y thema Cofio gan y disgyblion. Yn ystod y gwasanaeth buont yn rhannu yr hyn maent wedi ei ddysgu am fywyd adeg yr Ail Ryfel Byd, a'u cysylltiadau nhw gyda'r cyfnod trwy rannu hanesion am eu teuluoedd. Fel rhan o'r alldaith, fe wnaeth y disgyblion wisgo mewn dillad o gyfnod y 1940au a buont yn coginio ryseitiau o'r cyfnod. Braf iawn oedd medru rhannu yr hyn maent wedi ei ddysgu gyda gweddill y disgyblion ar y Campws Cynradd.

This term Helygen class has been studying the Second World War. The pupils showed a great deal of enthusiasm in learning about life during the period.

On Monday 11 November, a service was held on the theme of Remembrance by the pupils. During the service they shared what they had learned about life during the Second World War, and their connections with the period by sharing stories about their families. As part of the expedition, the pupils dressed in clothes from the 1940s and cooked recipes from the period. It was great to be able to share what they have learned with the rest of the pupils on the Primary Campus.



@brohyddgen



62 Oes Fictoria



**Dosbarth Onnen - Oes Fictoria /
Victorian Times**



Dros yr wythnosau diwethaf, mae dosbarth Onnen wedi bod yn dysgu am Oes Fictoria, yn enwedig am y nyrs Gymreig, Betsi Cadwaladr, ac ysbytai Fictorianaidd. Fel rhan o'r gwaith, ddydd Iau, 5ed o Ragfyr, gwnaethom ymweld ag Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth. Teithiom ar y tren o Fachynlleth i Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar iawn i Ddrafnidiaeth Cymru am ddarparu cludiant am ddim i ni. Roedd hyn yn antur fawr ac roedd pawb yn gyffrous ofnadwy. Ar ôl cyrraedd Aberystwyth, cerddom lawr y stryd i'r amgueddfa. Gwnaethom archwilio'r tri llawr a gwelsom nifer o arteffactau o wahanol gyfnodau mewn hanes. Y rhan fwyaf poblogaidd oedd yr hen degannau a gwnaeth nifer o'r plant fwynhau perfformio ar stondin Punch a Judy. Daeth yr ymweliad yma ag Oes Fictoria yn fyw i'r plant ac rwy'n siwr y bydd y profiad yn aros gyda hwy am amser hir i ddod.

Over the last few weeks, Onnen class have been learning about Victorian times, Victorian hospitals and in particular the Welsh nurse Betsi Cadwaladr. As part of our work, on Thursday 5th December, we visited Ceredigion Museum, Aberystwyth. We travelled by train from Machynlleth to Aberystwyth. We are very grateful to Transport for Wales for providing free transport. This was a great adventure and everyone was very excited. Upon arriving Aberystwyth, we walked along the high street to the museum. We explored all three floors and saw many various artefacts from different times in history. The favourite exhibit was the old toys and many of the children enjoyed performing at the Punch and Judy stand. This visit brought the Victorian Times alive for the children and I'm sure it is an experience that they will remember for a long time.



Ddydd Iau, 12fed o Fedi, cafodd myfyrwyr y Chweched Dosbarth gyfle i ymweld ag Oriel Davies yn Y Drenewydd.



Ddydd Iau'r 12fed o Fedi, cafodd disgyblion y chweched dosbarth gyfle i ymweld ag Oriel Davies yn Y Drenewydd. Pwrpas ein hymweliad oedd gwerthfawrogi â chael ysbrydoliaeth gan waith yr artist Cecile Johnson Soliz. Mae Cecile Johnson Soliz yn creu celf drwy ddefnyddio deunyddiau bob dydd fel papur, ffabrig, pren, paent ac ystod o offer lluniadu i greu darnau trwm a diddorol. Cefais nifer o syniadau ac ysbrydoliaeth a fydd yn fy helpu i greu darnau ar gyfer fy ngwaith tecstilau.

Cawsom gyfle wedyn i ymweld ag Amgueddfa hanesyddol Gwehyddu Y Drenewydd, cawsom gyfle i gyffwrdd â ffabrig a deunyddiau gwlan, gwranddo ar hanes diddorol a sut mae cnu yn cael ei weithio ar wyddiau ac olwynion nyddu, ochr yn ochr. Cawsom hefyd gyfle i ymweld ag arddangosfa o ddiwydiannau sy'n gysylltiedig â phobl leol ddylanwadol fel Pryce Jones.

Roedd yn ddiwrnod buddiol iawn i ni fel dosbarth, cael gweld yr hen beiriannau yn gweithio a chael clywed ffeithiau hanesyddol diddorol. Yn sicr rydym i gyd wedi elwa o'r ymweliad ac yn llawn syniadau ar gyfer creu gwaith cwrs. Diolch Mrs Hughes a Mrs Barraclough am y cyfle.

Eiry Lewis, Blwyddyn 12

On Thursday the 12th of September, sixth formers visited Oriel Davies Gallery in Newtown. The purpose of our visit was to appreciate and take inspiration from the work of artist Cecile Johnson Soliz. Cecile Johnson Soliz creates art by using everyday materials such as paper, fabric, wood, paint and a range of drawing tools to create bold and interesting pieces. I found many ideas and inspiration that will help me create pieces for my textile work.

We then had an opportunity to visit the historic Newtown Weaving Museum, had a chance to touch woolen fabric and materials, listen to interesting history and how fleece is worked on looms and spinning wheels, side by side. We also had the opportunity to visit an exhibition of industries associated with influential local people such as Pryce Jones.

It was a very rewarding day for us as a class, getting to see the old machinery in action and hearing interesting historical facts. Thanks Mrs Hughes and Mrs Barraclough for the opportunity.

Eiry Lewis, Year 12



64 Helen Pugh Artist Talk



Helen Pugh Artist Talk, October 10th

by Megan Breese Yr 12

Helen is a graduate of Embroidery from Manchester University, living in Tywyn. Helen has said, Place is very important to me, referring to living by the sea. A lot of her inspiration comes from the beach; as she is always taking walks along the coast. She also believes that embroidery can be found anywhere, she is constantly looking for embroidery in all aspects of her life. Helen brought many pieces of work to show us and talked about her ideas, inspiration and experiences in depth. The talk was a fascinating insight into the depth of emotion and messages that can be conveyed through embroidery.

One of her pieces was exhibited in the Tabernacle 'History' exhibition and was created because she believed she had to take something apart and put it back together, the jeans. She wanted to manipulate something and change the character of a material. It was almost therapeutic. The history of embroidery is very important to Helen because it's so rich and she loves to find out how it was used in different ages and countries. The history behind her denim piece was the pairs of jeans used which had been with her for 10 years, through different changes and important moments of her life. The jeans had it all embodied. To take the jeans apart she had to use masking tape to get rid of the loose threads, she loved how the texture and pattern of the threads were changed on the piece, that 'an object can provide more than you think'. The techniques Helen uses in her work include ripping, tearing, knotting and wrapping.



Helen Pugh artist yn siarad

65

Cyflwyniad gan yr arlunydd, Helen Pugh, Hydref 10fed
gan Megan Breese BI 12

Mae Helen yn raddedig o Brifysgol Manceinion, ond yn byw yn Nhywyn. Dywedodd Helen: ' Mae lle yn bwysig iawn i mi ', gan gyfeirio at fyw wrth y môr. Daw llawer o'i hysbrydoliaeth o'r traeth, gan ei bod bob amser yn mynd ar deithiau cerdded ar hyd yr arfordir. Mae hi hefyd yn credu bod brodwaith i'w gael yn unrhyw le, mae hi'n gyson yn chwilio am frodwaith ym mhob agwedd o'i bywyd. Daeth Helen â llawer o ddarnau o waith i'w dangos i ni, a siaradodd am ei syniadau, ei hysbrydoliaeth a'i phrofiadau'n fanwl. Roedd y sgwrs yn gipolwg diddorol ar ddyfnder yr emosiwn a'r negeseuon y gellir eu cyfleu trwy frodwaith.

Arddangoswyd un o'i darnau yn arddangosfa ' Hanes ' y Tabernacl ac fe'i crewyd am ei bod yn credu bod yn rhaid iddi gymryd rhywbeth ar wahân a'i roi yn ôl at ei gilydd. Roedd hi eisiau trin rhywbeth a newid cymeriad y deunydd. Roedd bron yn therapiwtig. Mae hanes brodwaith yn bwysig iawn i Helen, oherwydd ei fod mor gyfoethog ac mae hi wrth ei bodd yn darganfod sut y cafodd ei ddefnyddio mewn gwahanol oedrannau a gwledydd. Yr hanes y tu ôl i'w darn denim oedd y parau o jîns a oedd wedi bod gyda hi ers 10 mlynedd, drwy wahanol newidiadau ac eiliadau pwysig o'i bywyd. Roedd y jîns wedi ymgorffori'r cyfan. I dorri'r jîns yn ddarnau, roedd yn rhaid iddi ddefnyddio tâp masgio i gael gwared â'r edafedd rhydd, roedd hi wrth ei bodd sut y newidiwyd gwedd a phatrwm yr edau "gall gwrthrych ddarparu mwy nag yr ydych chi'n ei feddwl" meddai. Mae'r technegau y mae Helen yn eu defnyddio yn ei gwaith yn cynnwys rhwyfo, rhwygo, clymu a lapio.



Yr artist, Helen Pugh



@brohyddgen



66 Cân i Gymru!



Am gyfnod o ddau ddiwrnod ym mis Hydref, daeth Branwen ac Osian Williams i gydweithio gyda holl ddisgyblion Blwyddyn 8 Ysgol Bro Hyddgen i gyd-gyfansoddi dwy gân Gymraeg. Roedd hyn yn rhan o alldaith a drefnwyd gan yr adran Gymraeg a'r adran Gerddoriaeth fel paratoad at ddyfodiad y Cwricwlwm Newydd.

Roedd y diwrnodau hyn yn ffordd arbennig o ddatblygu disgyblion galluog a chreadigol wrth iddynt fwrw ati i ddewis thema i'w caneuon, cyfansoddi'r geiriau a'r alaw ac yna'u perfformio ar ddiwedd y dydd. Tros yr wythnosau dilynol, bu'r disgyblion yn mireinio a datblygu eu caneuon ymhellach yn eu gwersi cyn y croesawyd Osian yn ei ôl gydag Ifan, ei gydweithiwr, a aeth ati i recordio'r caneuon yn broffesiynol. Y bwriad wedyn yw hyrwyddo'r caneuon hyn a gweld pa gân fydd yn ennyn y mwyaf o wrandawyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Felly gweithdai unigryw a oedd nid yn unig yn datblygu eu sgiliau cyfansoddi cerddorol ond hefyd yn hogi sgiliau barddoni wrth i'r geiriau a'r alaw lifo'n un. Roeddem yn hynod falch, mewn ysgol ddwyieithog fel Bro Hyddgen, i'r disgyblion oll fwrw ati i gyfansoddi caneuon drwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi dewis themâu a oedd hefyd yn mireinio eu dealltwriaeth o'r iaith a Chymreictod yn gyffredinol. "Adref" a "Cymru" yw themâu'r ddwy gân.

Dyma weithdai sydd wedi ennyn tipyn o sylw a braf oedd cael croesawu criw ffilmio "Heno" i'r ysgol ar gyfer y recordio a oedd wedi dangos diddordeb mewn creu eitem am y profiadau y mae'r disgyblion wedi'u cael.

Rydym fel ysgol yn hynod werthfawrogol i Branwen ac Osian am ddod aton ni ac yn edrych ymlaen yn fawr at gael clywed y caneuon gorffenedig.



Cân i Gymru!

67

Over a course of a few days this term, Osian and Branwen Williams came to work with our Year 8 students to compose two Welsh songs. This was part of an expedition that was organized by both the Welsh and Music departments in preparation of the new curriculum.

These days were a fantastic opportunity to develop creative and abled students as they went forth choosing the themes of their songs, the lyrics and the melody before performing them at the end of the day. Over the following few weeks the pupils enhanced their products before welcoming Osian back to school, along with his colleague, Ifan, to record the songs professionally. The next step will be to promote the songs to see which song will top the opinion charts!

This unique opportunity, which not only developed their musical skills, but also augmented their poetic flair as the words and melody flowed smoothly. We were proud, as a bilingual school, of our pupils' ability to compose two songs in Welsh and for choosing themes, which strengthened their understanding of their homeland. "Adref/Home" and "Cymru/Wales" were their titles.

This expedition attracted a bit of attention as we welcomed the S4C current affairs program, Heno, to the school who recorded an item. We, as a school, would like to thank Branwen, Osian and Ifan for their hard work and look forward to hearing the final products.





Yweliad Dosbarth Derwen â Bwlch Corrog



Noson Agored BL6

Diolch yn fawr iawn i Mr Llifton Ellis, Ms Currie, a Mrs Haf Ap Robert am olygu'r rhifyn hwn o Ein Bro

Thank you very much to Mr Llifton Ellis, Ms Currie, and Mrs Haf Ap Robert for editing this Edition of Ein Bro

